

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013

Amser:
09:15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Marc Wyn Jones
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Agenda

Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 09.15 – 09.30

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

2 Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 - 75)

CYP(4)-28-13 – Papur 1 – Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd

Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

Eleri Thomas, Prif Weithredwr

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4

4 Bil Addysg (Cymru) – Cyfnod 1 – Ystyried yr adroddiad drafft (10.30 – 12.00) (Tudalennau 76 - 97)

CYP(4)-28-13 – Papur preifat 2

5 Papurau i'w nodi

Papurau i'w nodi – Tudalen glawr (Tudalen 98)

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15 – Gwybodaeth bellach gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Tudalennau 99 - 102)

CYP(4)–28–13 – Papur i'w nodi 3

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15 – Gwybodaeth bellach gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (Tudalennau 103 - 127)

CYP(4)–28–13 – Papur i'w nodi 4

Gwybodaeth bellach gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 26 Medi (Tudalennau 128 - 130)

CYP(4)–28–13 – Papur i'w nodi 5

Neges e-bost gan y Ddraig Ffyni ynghylch y sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–2015 (Tudalen 131)

CYP(4)-28-13- Papur i'w nodi 6

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon





Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Annual Report & Accounts
12/13



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

07	Rhagair Introduction
12	Sut rydyn ni wedi hyrwyddo How we have championed
18	Sut rydyn ni wedi gwrandio a chynnwys plant a phobl ifanc How we have listened and involved children and young people
22	Sut rydyn ni wedi cyngori How we have advised
30	Sut rydyn ni'n craffu Llywodraeth Cymru How we scrutinise Welsh Government
40	Sut mae fy nhim yn ffurfio ac yn dylanwadu ar bolisi How my team shape and influence policy
76	Casgliad Conclusion
78	Cyfrifon Accounts

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr hyn a ddigwyddodd rhwng
1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.
This report covers the period 1 April 2012 to 31 March 2013.

Wrth i mi edrych yn ôl dros y deuddeg mis diwethaf, bu un thema hollbwysig yn amlycach na dim yng ngwaith fy swyddfa, sef diogelu. Gwaetha'r modd, yn llawer rhy aml mae'r achosion difrifol sy'n dod i'm sylw yn nodyn atgoffa poenus am ddifrifoldeb trefniadau diogelu annigonol, ar ben y ffaith bod lleisiau plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu hanwybyddu'n llwyr.

Rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'r achosion pwysig niferus oedd yn ymwneud â diogelu. Mae'r honiadau hanesyddol ynghylch cam-drin plant mewn cartrefi plant yng ngogledd Cymru wedi dangos pa mor hanfodol yw rhoi cyfle i ddioddefwyr camdriniaeth gael eu clywed a'u cymryd i ddiwedd. Fe ddywedais ar y pryd, pan oedd honiadau newydd yn cael eu gwneud ynghylch y cartrefi plant yng ngogledd Cymru, fy mod yn teimlo bod yma ddigon o destun pryder i alw am ymchwiliad eang. Rwyf wedi fy nghalonogi, felly, bod cynifer o ddioddefwyr wedi cael eu grymuso i gysylltu â thîm yr ymchwiliad, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed o'r diwedd. Bu'r honiadau ynghylch camdriniaeth broffesiynol, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn y gwasanaethau addysg yn Sir Benfro hefyd yn achosi pryderon difrifol.

>>>

As I look back over the past twelve months there is one critical theme which has dominated the work of my office, and that is the issue of safeguarding. Sadly, all too often the serious cases brought to my attention are a stark reminder of the severity of insufficient safeguarding arrangements, coupled with the fact that often, the voices of children and young people are completely ignored.

The numerous significant cases relating to safeguarding have been much publicised in the media during the past year. The claims of historical child abuse at children's homes in north Wales has shown how critical it is to offer victims of abuse the opportunity to be heard and taken seriously. I said at the time, when fresh allegations were being made in relation to the children's homes in north Wales, that I felt there was sufficient concern to call for a wide ranging investigation. I am encouraged therefore that so many victims have felt empowered to contact the investigation team and that their voices are finally being heard. The allegations of professional abuse along with the arrangements for safeguarding and protecting children in education services in Pembrokeshire also raised grave concerns.

>>>

Dim ond trwy ddysgu gwersi o ddigwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf y gallwn adeiladu dyfodol gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn erthygl sy'n galluogi, ac mae'n nodi bod gan blant a phobl ifanc hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl dylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael eu barn wedi'i hystyried. Mae fy adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol 'Lleisiau Coll' ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen, yn dangos bod plant a phobl ifanc yn cael trafferth mewn rhai ardaloedd i gael mynediad i gefnogaeth eiriolwr annibynnol. Rwyf wedi cyhoeddi adolygiad o'r trefniadau comisiynu, ac mae diffyg cyflymdra'r cynnydd wedi achosi rhwystredigaeth i mi. Rwyf wedi galw am arweinyddiaeth ar bob lefel, i sicrhau ein bod yn rhoi eiriolaeth yn ôl ar y llwybr cywir.

Mae angen i ni sicrhau bod y dull synnwyr cyffredin o wrando ar blant a phobl ifanc, clywed eu llais a gweithredu ar sail eu pryderon, yn cael ei gymryd o ddiifri gan bawb sydd â dyletswydd i'w hamddiffyn.

Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r bar wrth hyrwyddo CCUHP, ac rwy'n cydnabod y cynnydd a wnaed yn y cyfnod byr ers cyflwyno'r Mesur. Mae'r ymdrechion a'r gweithgaredd i'w canmol, ac rwy'n canolbwyntio yn awr ar sut mae helpu i sicrhau yn ddigweddiad strategol sy'n cynnal, ac yn wir, yn sicrhau cynnydd yn ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru i CCUHP. Mae llygaid y byd ar Gymru. Ochr yn ochr â braint torri tir newydd daw cyfrifoleb i wneud pethau'n iawn a sicrhau bod Cymru'n gweithredu'n gymeradwy ar lefel ryngwladol, ac yn hyrwyddo CCUHP yn effeithiol yng Nghymru ac ar draws y byd.

Keith Towler Comisiynydd Plant Cymru

Edrych ymlaen – Gwaith Prosiect

Eleni rwyf wedi penderfynu ymgymryd â nifer o brosiectau a fydd yn edrych ar faterion sy'n destun pryder i mi, ac yn hysbysu fy ngwaith er mwyn dylanwadu ar newid yn y meysydd hyn.

Lles dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion

Cyhoeddodd Estyn ganfyddiadau ac argymhellion eu harolwg o'r trefniadau ar gyfer lles a rheoli ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion ym mis Ionawr 2012. Mae canfyddiadau'r arolwg yn destun pryder i mi, ac yn awgrymu bod angen gwella'r systemau a'r mesurau i gynnal lles disgyblion trwy reoli ymddygiad yn effeithiol. Rwy'n bwriadu edrych ar y materion hyn yn fanylach trwy brosiect a fydd yn canolbwyntio ar farn dysgwyr, eu lles a'u hawl i gael addysg.

Mynediad i leoliadau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynllunio hygyrchedd ysgolion ar gyfer disgyblion anabl, ac mae'n ofynnol bod gan ysgolion unigol gynllun hygyrchedd. Mae tystiolaeth wedi dod i'm sylw sy'n awgrymu nad yw'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni'n gyson ledled Cymru. Rwy'n bwriadu ymchwilio i gydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac effaith hynny ar y cyfleoedd i blant anabl fwynhau eu hawliau i addysg heb gamwahanfaethu.

Egwyliau byr i ofalwyr plant a phobl ifanc anabl

Cyhoeddwyd 'Datganiadau Gwasanaethau Egwyliau Byr' awdurdodau lleol ym mis Medi 2012, yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chefnogi gofalwyr, mae egwyliau byr yn chwarae rôl bwysig o ran cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc anabl fwynhau'r hawliau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cymdeithasol. Rwy'n bwriadu edrych yn fanwl ar weithrediad y rheoliadau newydd hyn, a'u heffaith ar y cyfleoedd i blant anabl fwynhau eu hawl i chwarae, hamdden ac adloniant. Byddaf yn benodol yn edrych ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir ac i ba raddau mae plant anabl a'u gofalwyr yn teimlo bod y rhain yn diwallu eu hanghenion.

Only through learning lessons from the events of the past year can we build a better future for children and young people in Wales. Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child is an enabling article and states that children and young people have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account. My review of independent professional advocacy 'Missing Voices' for looked after children, care leavers and children in need, demonstrates that children and young people do struggle in some areas to access the support of an independent advocate. I have published a review of commissioning arrangements and have been frustrated with the pace of progress. I have called for leadership at all levels to ensure we get advocacy back on track.

We need to ensure that the common sense approach of listening to children and young people, hearing their voice and acting upon their concerns, is taken seriously by all those who have a duty to protect them.

It is important to note that Welsh Government has raised the bar in the promotion of the UNCRC and I acknowledge the progress being made during the short period from when the Measure was introduced. The efforts and activity are to be commended and my focus is now centred on how to assist in securing a strategic approach which sustains, and indeed progresses, Welsh Government's existing commitment to the UNCRC. The eyes of the world are indeed on Wales. With the privilege of breaking new ground brings responsibility to get it right and ensure that Wales gives a good account of itself at an international level and effectively promotes the UNCRC in Wales and across the world.

Keith Towler Children's Commissioner for Wales

Looking Forward – Project Work

This year I have decided to undertake a number of projects which will look at issues of concern to me and inform my work to influence change in these areas.

Learner well-being in Pupil Referral Units

Estyn published the findings and recommendations of their survey of the arrangements for pupils' wellbeing and behaviour management in pupil referral units in January 2012. The survey findings are of concern to me and suggest that systems and measures to support pupil well-being through effective behaviour management need to be improved. I intend to examine these issues in more depth through a project which will focus on the views of learners, their well-being and their right to education.

Access to school settings for disabled children and young people

The Equality Act 2010 requires local authorities to plan the accessibility of schools for disabled pupils and individual schools are required to have an accessibility plan in place. Evidence has been brought to my attention which suggests that these duties are not being fulfilled consistently across Wales. I intend to investigate compliance with the Equality Act 2010 and the impact of this on the opportunities for disabled children to enjoy their rights to education without discrimination.

Short breaks for carers of disabled children and young people

Local authorities' 'Short Breaks Services Statements' were published in September 2012 as required by Welsh Government regulations. As well as providing support to carers short breaks have an important role in offering disabled children and young people opportunities to enjoy the rights associated with social activities. I intend to examine in detail the implementation of these new regulations the impact of this on the opportunities for disabled children to enjoy their right to play, leisure and recreation. In particular I will be looking at the range of services provided and the degree to which disabled children and their carers feel these meet their needs.

Sut rydyn ni wedi hyrwyddo

How we have
championed

Tudalen 21



Fy ngwaith fel Pencampwr Plant... Rwy'n codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – fi yw pencampwr Plant Cymru.

Tudalen 22

Eleni mae ymwybyddiaeth o Gomisiynydd Plant Cymru a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn uwch nag erioed o'r blaen. Yn 2012, roedd 39% o'r bobl yn yr arolwg wedi clywed am Gomisiynydd Plant Cymru¹. Roedd chwarter o'r rheiny'n cytuno mai rôl y Gomisiynydd Plant yw sicrhau bod pawb yn gwybod am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bu ein gwaith cyfathrebu yn sbardun allweddol ar gyfer y cynnydd hwn. Eleni, gwelodd y swyddfa gynnydd o 112% yn y sylw yn y cyfryngau: sicrhawyd 1,114 o enghreifftiau o sylw, gan gynhyrchu 1.4 biliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am waith y Comisiynydd. Roedd hyn yn gyfwerth â gwerth £4.4m o hysbysebu – cost prynu'r lle petasai'r erthygl yn hysbyseb. Hefyd sicrhawyd dros 1000 o ddilynwyr newydd ar Twitter – offeryn sy'n prysur ddod yn borth allweddol i bobl gysylltu a chadw mewn cysylltiad â'r swyddfa.

See Me / Dyma Fi

Roedd gwaith partneriaeth yn un o nodweddion allweddol y swyddogaeth gyfathrebu eleni. Denodd yr ymgyrch See Me I Dyma Fi, sy'n ceisio chwalu stereoteipiau o bobl ifanc, sylw proffil uchel gan sefydliadau oedd yn cynnwys Ofcom, BBC Trust, FILMCLUB Cymru ac S4C. Cynhaliwyd seminar lwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg. Lle trafodwyd syniadau ynghylch gweithio ar y cyd. Arweiniodd hynny at FILMCLUB Cymru yn cytuno i gyflwyno tymor oedd yn canolbwyntio ar yr ymgyrch See Me I Dyma Fi yn ei holl ysgolion, ac at S4C yn ein gwahodd i fod yn rhan o brosiect digidol mawr a fydd yn gweld pobl ifanc ledled Cymru yn rhannu clipiau fideo o'u bywydau er mwyn creu map rhithiol newydd sbon dan y brand 'Dyma Fi'. Bydd y prosiect yn cloi â rhaglen ddogfen 60 munud fydd yn cael ei darlledu yn yr hydref.

Elfen newydd o'r ymgyrch a gaiff ei lansio'n ddiweddarach eleni fydd cronfa heb daliadau hawlfraint o ddelweddau o bobl ifanc. Datblygwyd y gronfa hon o ddelweddau gyda phobl ifanc, ac mae'n ymgais i dorri nôl ar y defnydd o ddelweddau negyddol o bobl ifanc yn y cyfryngau, trwy ddarparu dewisiadau amgen cyfrifol iddyn nhw.

>>>

¹ Comisiynydd Plant Cymru, Arolwg Omnibus Cymru, Tachwedd 2012

My work as Children's Champion... I speak up for children and young people nationally on important issues – being the children's champion in Wales.

This year awareness of the Children's Commissioner for Wales and the UN Convention on the Rights of the Child has reached a record high. In 2012 39% of people surveyed had heard about the Children's Commissioner for Wales¹. A quarter of those agreed that the role of the Children's Commissioner is to ensure that everyone knows about the United Nations Convention on the Rights of the Child.

A key driver for this increase has been our communications work. This year, the office saw a 112% increase in media coverage: 1,114 pieces of coverage were secured, generating 1.4 billion opportunities to read or hear about the Commissioner's work. This coverage equated to £4.4 m advertising value equivalent – the cost of buying the space had the article been an advertisement. Over 1000 new followers were also secured on Twitter – a tool which is fast becoming a key gateway for people to contact and liaise with the office.

See Me / Dyma Fi

Partnership working was a key feature of the communications function this year. The See Me I Dyma Fi campaign, which aims to smash the stereotypes of young people, attracted some high profile attention from organisations including Ofcom, BBC Trust, FILMCLUB Cymru and S4C. A successful seminar was held at the National Eisteddfod in the Vale of Glamorgan where ideas around joint working were discussed. It materialised in FILMCLUB Cymru agreeing to roll out a season focussing on the See Me I Dyma Fi campaign in all its schools and S4C inviting us to become a part of a major digital project which will see young people from across Wales sharing video clips of their lives for a brand new virtual map under the 'Dyma Fi' brand. The project will culminate in a 60-minute documentary to be screened this autumn.

A new feature of the campaign to be launched later this year will be the launch of a royalty-free bank of images of young people. Developed with young people, this image bank is an attempt to curb the use of negative images of young people by the media by providing them with responsible alternatives.

>>>

¹ Children's Commissioner for Wales, Wales Omnibus Survey November 2012

Kids in Museums

Crewyd cysylltiadau â sefydliadau eraill hefyd eleni, yn cynnwys Kids in Museums. Fel rhan o'r bartneriaeth hon ymunodd fy staff â Kids in Museums a Llywodraeth Cymru i rymuso plant a phobl ifanc i 'redeg' amgueddfeydd am ddiwrnod. Bu 29 o amgueddfeydd ac orielau'n cymryd rhan, gan ein galluogi i arddangos y cyfraniad cadarnhaol mae plant a phobl ifanc yn ei wneud i'n cymdeithas.

Gweithio gyda'r Ddraig Ffyni

Mae gwaith wedi parhau rhwng fy swyddfa a'r Ddraig Ffyni, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Yn dilyn llwyddiant y prosiect peilot yn 2011/12, penderfynwyd cynnal ail gyfnod, sydd wedi gweld aelodau ifanc o'r Ddraig Ffyni yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd a CCUHP yn eu fforymau a'u cymunedau eu hunain, yn ogystal â helpu i hysbysu prosiectau penodol yn ein cynllun gwaith.

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i helpu i symud y gwaith yn ei flaen.



Tudalen 23

Kids in Museums

Links were also forged with other organisations this year including Kids in Museums. This particular partnership saw my staff team up with Kids in Museums and Welsh Government to empower children and young people to 'run' museums for the day. Twenty nine museums and galleries took part and enabled us to showcase the positive contribution children and young people make to our society.

Working with Funky Dragon


Work has continued between my office and Funky Dragon, the Children and Young People's Assembly for Wales. Following the success of the pilot project in 2011/12 it was decided to run with the second phase, which has seen young members of Funky Dragon helping to raise awareness of the Commissioner's role and the UNCRC within their own forums and communities as well as helping to inform specific projects within our work plan.

We will hold regular meetings to help progress the work.



Sut rydyn ni'n gwrando ac yn cynnwys plant a phobl ifanc

How we have
Tudalen 24
listened and
involved children
and young people



Llysgenhadon Gwych

Mae fy llysgenhadon ysgol wedi chwarae rhan hanfodol yn ein gwaith cyfranogiad ers dros saith mlynedd. Mae ein rhwydwaith o llysgenhadon mewn ysgolion cynradd ledled Cymru yn tyfu, ac mae mwy na 200 o ysgolion bellach wedi cofrestru yn aelodau.

Disgyblion blwyddyn 6 yw llysgenhadon, sy'n cael eu hethol gan eu cyfoedion ac yn gyfrifol am gynyddu ymwybyddiaeth o Gomisiynydd Plant Cymru a hawliau plant, fel yr amlinellwyd yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn eu hysgolion.

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y cynllun ar gael yn hwylus i bob ysgol, ac i helpu i annog pob ysgol gynradd i ymuno â'r cynllun, bu'r staff yn gweithio gyda llysgenhadon presennol i ddatblygu gwefan newydd ryngweithiol ac ap. Ces fy nghalonogi'n arbennig i glywed am ymrwymiad Arweinydd Cyngor Sir Penfro y bydd holl ysgolion cynradd Sir Benfro yn ymuno â'm Cynllun Llysgenhadon Gwych yn 2013.

Mae'r wefan – www.llysgenhadongwych – yn cynnwys gwybodaeth am y cynllun, adnoddau i'w hargraffu, gêm addysgol ryngweithiol a chanolbwynt lle gall ysgolion rannu arfer da. Efen newydd i'r cynllun eleni yw'r swyddogaeth 'tasgau arbennig', y mae llysgenhadon yn cael eu gwahodd i'w cwblhau bob tymor. Gall y tasgau arbennig hyn fod ar ffurf holiaduron ar-lein a luniwyd gan fy staff, neu'n waith prosiect i archwilio thema sy'n gysylltiedig â'n cynllun gwaith blynyddol.

Yn mis Tachwedd 2012, fe gynhaliais i fy ngweminar gyntaf erioed – sgwrs fideo fyw a oedd yn helpu i nodi lansi'r wefan newydd yn Ysgol Gynradd y Bryn, Llanelli. Ymunodd dros 36 o ysgolion ledled Cymru â ni'n fyw i glywed am y cynllun, a chafwyd dros 150 o gwestiynau gan ddisgyblion. Yn dilyn llwyddiant y gweminar cychwynnol, mae digwyddiadau tebyg yn cael eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Llysgenhadon Cymunedol

Yn dilyn fy ymweliadau â phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn haf 2012, fe roddais i gyfle i grwpiau cymryd rhan mewn peilot Llysgenhadon Cymunedol. Roedd hwn wedi'i seilio ar y cynllun llysgenhadon ysgol sefydledig, ac roedd disgwyl i bobl ifanc fyddai'n dod yn Llysgenhadon Cymunedol wneud y pethau canlynol:

1. **dweud wrth eraill am CCUHP;**
2. **dweud wrth eraill am Gomisiynydd Plant Cymru;**
3. **bod yn llais ar lawr gwlad i rannu'r pethau cadarnhaol a'r pethau sydd eu hangen i wella.**

Darparodd y staff weithdai hyfforddi cychwynnol a chefnogaeth barhaus i'r prosiectau peilot, oedd yn cynnwys grwpiau yn Abertawe, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin. Roedd gwybodaeth o'r grwpiau hyn yn cael ei fwydo'n uniongyrchol i'm Strategaeth Tlodi Plant gyntaf erioed, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012.

I helpu i gofnodi gwaith y peilot, cytunodd Film Agency Wales i ffilmio a chreu DVD gyda'n Llysgenhadon Cymunedol ifanc. Yn amodol ar ganlyniadau'r prosiect peilot yn ne Cymru, mae bwriad i estyn y cynllun i grwpiau ledled Cymru o hydref 2013, gan ddefnyddio'r DVD i rannu arfer da.



Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er bod gennym ni dîm cyfranogiad ymroddedig, mae disgwyl i bob aelod o'n fîm gael cyfle yn ystod y flwyddyn i weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Anogir staff i'm cysgodi yn ystod ymweliadau ag ysgolion, sy'n digwydd o leiaf unwaith yr wythnos, yn ogystal â mynd i weithdai a digwyddiadau mae fy swyddfa'n eu cynnal. Mae gwybodaeth a gasglir yn ystod yr ymweliadau a'r digwyddiadau yma'n bwydo'n uniongyrchol i'r cylch cynllunio corfforaethol ac yn aml yn dod i'r amlwg ar ffurf llinyn gwaith penodol.

Er enghraifft, mae'r negeseuon allweddol a gasglwyd yn ystod ymweliadau wedi cynnwys materion ynghylch bod mewn gofal, stereoteipio cymunedau sipsiwn a theithwyr a gofaluwr ifanc yn teimlo'n anweledig yn y gymdeithas – bydd pob un o'r rhain yn amlwg iawn yng nghynllun gwaith y flwyddyn nesaf fel rhan o'n hymgyrch See Me/Dyma Fi.

Eleni fe wnaethon ni gyhoeddi, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, daflen am roi caniatâd mewn lleoliadau gofal iechyd. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o ddatblygu cynnwys a dyluniad y daflen yma.

Ochr yn ochr â'm staff, fe fues i hefyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn amrywiol ddigwyddiadau ledled Cymru, oedd yn cynnwys:

- **Sialens y Gnoll i ysgolion**
- **Digwyddiad arbennig i rai oedd yn gadael gofal yng Ngholeg yr Iwerydd**
- **Eisteddfod yr Urdd, Eryri**

Super Ambassadors

My school ambassadors have played an integral part in our participation work for over seven years. Our network of ambassadors in primary schools across Wales is growing, with over 200 schools now registered as members.

Ambassadors are year 6 pupils who are elected by their peers and are tasked with raising awareness about the Children's Commissioner for Wales and children's rights, as outlined in the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC), within their schools.

To ensure information about the scheme is readily available to all schools, and to help encourage every primary school to join the scheme, staff worked with existing ambassadors to develop a new interactive website and app. I am particularly encouraged to learn of the commitment made by the Leader of Pembrokeshire Council to have all primary schools in Pembrokeshire signed up to my Super Ambassador scheme in 2013.

The website – www.superambassadors.org.uk - houses information about the scheme, printable resources, an interactive educational game and a hub for schools to share good practice. New to the scheme this year is the 'special missions' function, which ambassadors are invited to complete every term. These special missions can take the form of online questionnaires set by my staff or can be project work to explore a theme linked to our annual work plan.

In November 2012, I hosted my first ever webinar – a live video chat which helped mark the launch of the new website at Bryn Primary School in Llanelli. Over 36 schools from across Wales joined in live to hear about the scheme and over 150 questions were received from pupils. Following the success of the inaugural webinar, similar events are being planned for next year.

Community Ambassadors

Following my visits to Community First projects in the summer of 2012 I offered groups the opportunity to take part in a Community Ambassador pilot. Based on the established Super Ambassador scheme, young people who became Community Ambassadors were expected to:

1. **tell others about the UNCRC;**
2. **tell others about the Children's Commissioner for Wales;**
3. **be a voice on the ground and share the positive things that are happening in communities and the things that could be improved.**

Staff provided initial training workshops and on-going support to the pilot projects including groups in Swansea, Cardiff, Rhondda Cynon Taf and Carmarthenshire. Information from these groups fed in directly to my first-ever Child Poverty Strategy, which was published in October 2012.

To help capture the pilot work, Film Agency Wales agreed to film and create a DVD with our young Community Ambassadors. Subject to the outcomes of the pilot project in south Wales, the intention is to roll out the scheme to groups across Wales from autumn 2013, using the DVD to share good practice.

Engagement with children and young people

Whilst we have a dedicated participation team, it is expected that every member of our team has the opportunity during the year to work directly with children and young people. Staff are encouraged to shadow me during school visits, of which there are at least one a week, as well as attend workshops and events my office hosts. Information captured during these visits and events feeds directly into the corporate planning cycle and often materialise as a specific work strand.

For example, key messages that have been captured during visits have included issues in relation to being in care, the stereotyping of gypsy and traveller communities and young carers feeling invisible within society – all of which will feature heavily in next year's work plan as part of our See Me/Dyma Fi campaign.

This year we published, in conjunction with Welsh Government, a leaflet about consent in health care settings. Children and young people were part of developing the content and design of the consent leaflet.

Along with my staff, I also engaged with children and young people at various events across Wales, which included:

- **Local Aid Schools Challenge**
- **A special care leavers event at Atlantic College**
- **Eisteddfod yr Urdd, Eryri**



Sut rydyn ni wedi cynggori

How we have advised

Tudalen 26



Sut mae fy nhîm wedi rhoi cyngor... Mae'r staff yn rhoi cyngor i blant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau.

Tudalen 27

Roedd materion oedd yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i'w gweld yn amlwg yng ngwaith ein gwasanaeth cyngor a chymorth eleni.

Bu ein Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor yn trafod 535 o achosion yn 2012.

- roedd 187 o faterion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol
- roedd 207 o faterion yn ymwneud ag addysg
- roedd 59 o faterion yn ymwneud â chyfraith teulu
- roedd 51 o faterion yn ymwneud â'r amgylchedd
- roedd 41 o faterion yn ymwneud â iechyd

Roedd swyddogion mewn sefyllfa i roi cyngor ar unwaith mewn 217 o achosion – a elwir yn achosion untro – fel bod y galwyr yn gallu datrys y materion eu hunain. Daeth y 318 achos arall yn achosion llawn, ac roedd y materion dan sylw yn cynnwys y canlynol:

- gwasanaethau cymdeithasol: lleoliadau maeth, gadael gofal ac eiriolaeth, cwynion a darparu gwasanaethau;
- addysg: anghenion addysgol arbennig, cludiant i'r ysgol a chwynion, amddiffyn plant;
- cyfraith teulu: achosion gofal, cwynion a gorchmynion adran 8 (Deddf Plant 1989) yng nghyswllt preswyliaeth;

- iechyd: gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, darpariaeth, cyllid a chwynion;
- amgylchedd: chwarae a hamdden, trafniadaeth a chyllid.

Sut bu pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth:

- 326 o weithiau dros y ffôn (gan gynnwys trwy ein cyfleuster Rhadffôn)
- 147 o weithiau drwy e-bost
- 40 o weithiau drwy lythyr
- 14 o weithiau yn bersonol
- 8 o weithiau trwy neges destun.

Pwy fu'n cysylltu â'r gwasanaeth:

- 248 o achosion trwy riant
- 52 o achosion trwy blentyn neu berson ifanc
- 39 o achosion trwy'r teulu estynedig
- 18 o achosion trwy ofalwr maeth

Ymhlith y lleill roedd aelod etholedig (17), gwasanaeth eiriolaeth (14) ac aelod o'r cyhoedd (74).

How my team have advised... Staff advise children and young people and those who care for them if they feel they've got nowhere else to go with their problems.

Issues in relation to social services and education featured prominently in the work of our advice and support service this year.

535 cases were handled by our Investigations and Advice Officers in 2012.

- 187 issues were in relation to social services
- 207 issues were in relation to education
- 59 issues in relation to family law
- 51 issues were in relation to environment
- 41 issues were in relation to health.

Officers were able to provide immediate advice to 217 cases – classed as one-off cases – to enable callers to resolve the issues themselves. The remaining 318 cases became full cases, where issued included:

- social services: foster placements, leaving care and advocacy, complaints and provision of services;
- education: special educational needs, school transport and complaints, child protection;
- family law: care proceedings, complaints and section 8 orders (Children's Act 1989) in relation to residency;
- health: CAMHS, provision, funding and complaints;
- environment: play and leisure, transport and funding.

How people contacted the service:

- 326 times by phone (including via our Freephone facility)
- 147 times by email
- 40 times by letter
- 14 times in person
- 8 times via text message.

Who contacted the service:

- 248 cases via a parent
- 52 cases via a child or young person
- 39 cases via an extended family
- 18 cases via a foster carer.

Others included elected member (17), advocacy service (14) and member of the public (74).

Enghreifftiau o waith fy nhîm

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfeiriwyd achos person ifanc atom ni gan asiantaeth faethu annibynnol. Roedd cytundeb gan y person ifanc i aros yn ei lleoliad maeth ar ôl cael ei phen-blwydd yn 18, tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, pan adawodd hi ei chwrs coleg, roedd wedi cofrestru ar gyfer cwrs hyfforddi yn y gwaith, a dywedodd y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd y cwrs hyfforddi'n cael ei gydnabod fel cwrs addysg amser llawn, ac felly y byddai lleoliad y person ifanc yn dod i ben wedi iddo gael ei phen-blwydd yn 18. O ganlyniad, fe wnaethom ni ei chynghori nad oedd yr Awdurdod Lleol yn gweithredu eu polisiau ar gyfer pobl ifanc mewn gofal.

Fe wnaethon ni roi gwlybod i'r person ifanc am y broses gwynion hefyd, ac fe wnaeth hi gwyn ffurfiol yn sgîl hynny. Gan fod mis tan y symudiad arfaethedig, fe wnaethon ni gefnogi'r person ifanc a chyflwyno sylwadau ar ei rhan i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu'r person ifanc hefyd yn ysgrifennu at ei chynrychiolwyr etholiadol. Ar ôl cyflwyno sylwadau, a chyd-drafod rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r asiantaeth faethu, cytunwyd y byddai'r person ifanc yn aros yn ei lleoliad tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, yn unol â'r cynllun gwreiddiol, pa gwrs bynnag y byddai hi'n ei ddilyn.

Addysg

Gwnaeth mam plentyn atgyfeiriad uniongyrchol i'n gwasanaeth cyngor annibynnol, yn ceisio cymorth i'w mab, oedd yn cael trafferth mynd i'r ysgol oherwydd materion iechyd meddwl, oedd yn cynnwys pryder dimol o ganlyniad i gael ei fwlio.

Fa fuon ni mewn cysylltiad â thîm lles addysg yr ysgol, a oedd yn gwlybodol o'r achos, ac a ddywedodd eu bod wedi rhoi cynnig ar bopeth i geisio annog y person ifanc i ddod i'r ysgol. Ar ôl cynhyrchu tystiolaeth feddygol oedd yn cefnogi tiwtora gartref, fe fuon ni mewn cysylltiad â'r Swyddog Lles Addysg, a hwylusodd diwtora gartref fel bod modd i'r plentyn gwblhau ei addysg TGAU o'i gartref.

Iechyd

Gwnaeth mam plentyn atgyfeiriad uniongyrchol i'm gwasanaeth cyngor a chymorth yn ceisio cymorth ar gyfer sefyllfa ei mab. Gan ei fod yn ddirifrol awtistig ac yn dioddef o anawsterau ymddygiad dirifrol, roedd mam y plentyn yn pryderu am iechyd ei mab, gan fod angen iddo gael triniaeth endosgopi archwiliadol, nad oedd modd ei wneud yn ei fwrdd iechyd lleol.

Fe wnaethon ni ymholiadau ar ran y teulu a chasglu persbectif pediatregydd y plentyn, yn ogystal â'i weithiwr cymdeithasol. Roedd yn amlwg bod angen endosgopi arno ar frys i ganfod achos ei symptomau.

Trwy gysylltu â'n Swyddogion Cyswllt Dynodedig yn y ddau Fwrdd Iechyd Lleol, llwyddwyd i ddod â'r gweithwyr iechyd profesiynol at ei gilydd i drefnu ei fod yn cael y driniaeth ar frys. Unwaith roedd hynny wedi digwydd, gwelodd iechyd y plentyn.

Cludiant i'r Ysgol

Cysylltodd rhiant pryderus â'm tim Ymchwiliadau a Chyngor ynghylch diogelwch personol eu plant wrth gerdded i'r ysgol gan nad oedd y teulu'n byw'n ddigon pell o'r ysgol i fod yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol.

Roedd yr heddlu wedi cyfleu eu pryderon ynghylch y llwybr oherwydd y goleuo, y manau ynysig, a hefyd bod y llwybr yn mynd trwy ardal oedd yn adnabyddus am oedolion yn defnyddio cyffuriau. Cyfeiriodd fy swyddfa y mater dan sylw at y bwrdd diogelu lleol, ac fe wnaethon nhw ymrwymo i edrych ar y mater ac ymgysylltu â'r awdurdod lleol. Mae'r heddlu hefyd wedi comisiynu asesiad ffurfiol.

Nid digwyddiad ynysig oedd hyn, gan fod nifer o hanesion wedi dod i'r amlwg yn y cyfryngau, er enghraifft un Pennaeth yn penderfynu trefnu bws mini ar gyfer disgyblion oedd yn methu hawlio cludiant am ddim i'r ysgol, ac a oedd wedi derbyn llwybr cerdded amgen a oedd yn anniogel, yn marn y Pennaeth.

Gwnaed fy nhîm polisi yn gyfrifol am edrych yn fanylach ar y mater hwn, i ganfod a oedd problem systemig yr oedd angen ei datrys, ac ymddengys mai dyna yw'r sefyllfa, yn bendant.

Ymddengys mai'r cyfan y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud, wrth nodi llwybrau cerdded i'r ysgol, yw edrych ar y berthynas rhwng cerddwyr a thraffig. Nid yw materion diogelwch personol plant sy'n teithio ar eu pennau eu hunain yn cael eu hystyried. O'r achosion y deuwyd â hwy at fy sylw, felly, ymddangosai fod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u goblygiadau statudol, o ran llythyren y ddeddf, ynghylch llwybrau cludiant i'r ysgol.

Fy safbwynt i yw nad yw'r canllawiau hyn yn adlewyrchu sefyllfa glir Llywodraeth Cymru o ran hybu lles plant a phobl ifanc a'u diogelu. Mae angen i blant a phobl ifanc deimlo'n hyderus eu bod yn gallu teithio i'r ysgol ac o fewn eu cymunedau yn ddiogel. Mae hynny'n golygu nid yn unig bod angen iddynt fod yn ddiogel rhag damweiniau traffig ar y ffordd wrth gerdded, mae hefyd yn golygu eu bod yn cael cynnig llwybrau sydd wedi'u goleuo'n dda, ac sydd ddim yn cynnwys manau ynysig nac ardaloedd sy'n hysbys am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ymddengys hefyd fod anghysondebau rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r maes polisi hwn, ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Rwyf wedi bod yn chwilio am ffyrdd o ddylanwadu ar newid, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Un llwybr hollbwysig yw'r Bil Teithio Llesol (Cymru) sydd, yn y pen draw, yn ceisio creu rhwydwaith o lwybrau di-draffig ledled Cymru.

Wrth i awdurdodau lleol nodi a mapio llwybrau diogel a phriodol, ac mewn cynlluniau dilynol, rwy'n galw am sicrhau bod addasrwydd llwybrau trwy gymunedau at leoliadau addysg, hamdden a chwarae yn destun asesiad o safbwynt plant a phobl ifanc.

Er fy mod yn croesawu'r darpariaethau allweddol yn y Bil, rwy'n galw am newid ar ei wyneb yng nghyswllt yr ystyriaethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol sylw iddynt wrth benderfynu a yw'n addas ystyried llwybr fel llwybr teithio gweithredol. Rwyf am weld ychwanegu 'diogelwch personol' fel ystyriaeth bwysig. Byddai hepgor cymal o'r fath yn groes i Erthygl 19 o CCUHP, sy'n ymwneud â diogelu.

Byddaf yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru ynghylch y mater sy'n ymwneud â Bil Teithio Llesol (Cymru), yn ogystal â phob cyfle arall perthnasol.

>>>

Examples of the work of my team

Social Services

A young person's case was referred to us by an independent fostering agency. The young person had an agreement to stay in her foster placement beyond her 18th birthday until the end of the academic year. However, when she left the college course she was enrolled on to take up a work based training course, Social Services claimed that the training course was not recognised as a full time education course, and therefore the young person's placement would be ended following her 18th birthday. As a result, we advised that the Local Authority was not implementing their policies for young people in care.

We also advised the young person of the complaints process and she subsequently made a formal complaint. As the proposed move was a month away, we supported the young person and made representations on her behalf to the Director of Social Services. The young person also wrote to her electoral representatives. Following representations made and negotiations between Social Services and the fostering agency it was agreed for the young person to stay in her placement until the end of the academic year as originally planned, irrelevant of the course she was pursuing.

Education

A child's mother made a direct referral to our independent advice service, seeking assistance for her son, who was having difficulty attending school due to mental health issues including severe anxiety as a result of being bullied.

We liaised with the school's education welfare team, who were aware of the case, and said they had exhausted all options in encouraging the young person to attend school. Following the production of medical evidence supporting home tuition, we liaised with the Education Welfare Officer who facilitated home tuition so that the child could complete his GCSE education from home.

Health

A child's mother made a direct referral to our advice and support service seeking assistance for her son's situation. Being severely autistic and with severe behavioral difficulties, the child's mother was concerned about her son's health as he needed an exploratory endoscopy procedure which could not be undertaken by his local health board.

We made enquiries on behalf of the family and sought the perspectives of the child's paediatrician as well as the child's social worker. It was apparent that he needed an endoscopy urgently in order to identify the cause of the symptoms he was presenting with.

Through contacting our Designated Liaison Officers in the two Local Health Boards we were able to bring the health professionals together to arrange for him to have the procedure completed as a matter of urgency. The child's health improved following completion of the procedure.

School Transport

My Investigation and Advice Team were contacted by a concerned parent in relation to the personal safety of their children on their walk to school, as the family did not meet the distance criteria to qualify for school transport.

The police had communicated their concerns regarding the route due to lighting, areas of isolation and also that the route passed through an area well known for drug use by adults. My office referred the issue to the Local Safeguarding Board and they agreed to examine the issue and engage with the local authority. The police also commissioned a formal assessment.

This was not an isolated incident as a number of stories emerged in the media, for example one Headteacher decided to run a mini-bus for pupils who could not access free school transport and were presented with an alternative walking route which the Headteacher deemed unsafe.

My policy team was tasked to look into this issue in more detail to ascertain whether there was a systemic issue which needed resolving and it appeared that this was very much the case.

Local authorities, in identifying walking routes to schools, must look at the relationship between pedestrians and traffic only. Personal safety issues of children travelling alone are not considered. It therefore appeared from the cases brought to my attention, that by the letter of the law, local authorities were compliant with the statutory obligations relating to school transport routes.

My position is that these guidelines do not reflect the Welsh Government's clear position in relation to promoting the welfare and safeguarding of children and young people. Children and young people need to feel confident that they can travel to school and within their communities safely. This does not only mean that they need to be safe from road traffic accidents as pedestrians, it also means that they are offered well lit routes that do not include isolated areas or areas known for antisocial behaviour.

It also seems that that there are disparities between various pieces of legislation which are relevant to this policy area and this needs addressing. I have been seeking ways in which to influence change and will continue to do so. One critical avenue is the Active Travel (Wales) Bill which ultimately seeks to create a network of traffic free routes throughout Wales.

In the identification and mapping of safe and appropriate routes by local authorities and in subsequent plans, I am calling for the suitability of routes through communities to places of education, recreation and play to be subject to an assessment from the position of children and young people.

While I welcome the key provisions in the Bill I am calling for a change on the face of the Bill in relation to the considerations that local authorities must take into account in deciding whether it is suitable for a route to be regarded as an active travel route. I wish to see the addition of 'personal safety' as a material consideration. An omission of such a clause would run contrary to Article 19 of the UNCRC which relates to safeguarding.

I will continue to press the Welsh Government on the issue regarding the Active Travel (Wales) Bill as well as all other relevant opportunities.

>>>

Operation Pallial ac Adolygiad Macur

Ym mis Tachwedd 2012 daeth fy swyddfa'n rhan o ddarn sylweddol o waith oedd yn ymwneud ag achos hanesyddol o gam-drin plant mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru ac adroddiad Waterhouse.

Ar 2 Tachwedd 2012, darlledodd Newsnight, rhaglen materion cyfoes y BBC, gyfweiliad a oedd yn cynnwys honiadau ynghylch achos hanesyddol o gam-drin plant yn y system ofal yng Ngogledd Cymru, a datganiad bod Ymchwiliad Waterhouse, a sefydlwyd i ymchwilio i gam-drin plant mewn cartrefi yng ngogledd Cymru yn y 1970au a'r 1980au, wedi methu a darganfod gwir hyd a lled y camdriniaeth. Fe ddywedais i'n eglur, os oedd materion heb eu datrys yng nghyswllt adroddiad Waterhouse a'r cam-drin a oedd wedi digwydd yn y cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru, y dylid ymchwilio'n drylwyr iddynt, er mwyn y dioddefwyr.

Ar ôl y darllediad, dechreuodd Heddlu Gogledd Cymru, yr NSPCC, Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, y CEOP (Canolfan Amddiffyn Plant rhag Ecsbloetio ac Ar-lein) a gwasanaethau eraill cyhoeddus a gwirfoddol, a'm swyddfa i, dderbyn cwynion niferus am achosion hanesyddol o gam-drin plant oedd yn gysylltiedig â system ofal Gogledd Cymru.

Derbyniodd fy swyddfa gyfanswm o 99 o alwadau, yr oedd 48 ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â cham-drin mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, a 24 ohonynt â cham-drin plant mewn lleoliadau eraill.

Yn fuan iawn, arweinodd y diddordeb dwys a ennynnwyd yn y cyhoedd yn sgîl yr honiadau at sefydlu dau adolygiad annibynnol.

Sefydlwyd Operation Pallial yn ymchwiliad annibynnol oedd yn edrych ar honiadau ynghylch achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn cartrefi plant yng ngogledd Cymru. Roedd fîm yr ymchwiliad yn gyfrifol am ddarparu adroddiad i Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, yn cyflwyno argymhellion ar gyfer camau canlyniadol i'w cymryd erbyn diwedd Ebrill 2013.

Toes Adolygiad Macur, adolygiad annibynnol dan gadeiryddiaeth Mrs Ustus Macur DBE, oedd ystyried cwmpas ymchwiliad gwreiddiol Waterhouse, a'r oedd unrhyw honiadau penodol am gam-drin plant a oedd oddi mewn i'r dylch gorchwyl heb dderbyn sylw gan yr Ymchwiliad.

Roeddwn i'n gwbl eglur y dylem ni fod mor benderfynol ag erioed i gyrraedd y gwir, ac i sicrhau bod yr ymchwiliadau mor drylwyr ac mor dryloyw â phosib. Ddylem ni ddim anghofio pa mor anodd oedd y cyfnod hwn i'r dioddefwyr. Mae angen i ni barchu'r rhai sydd ddim am ail-fyw eu profiadau, a sicrhau bod cymorth arbenigol digonol ar gael i'r rhai sydd am godi llais.

Mae fy swyddfa wedi gweithio'n agos gydag Operation Pallial ac adolygiad Macur, i sicrhau bod y dioddefwyr a fu'n adrodd am gamdriniaeth i'r swyddfa yn cael eu cyfeirio ymlaen at y ddau adolygiad, ac yn gweithio gyda'r ddau adolygiad i sicrhau bod darpariaeth gwnsela briodol yn cael ei rhoi ar waith.

Mae fy swyddfa wedi gweithio'n agos gydag Operation Pallial ac adolygiad Macur, i sicrhau bod y dioddefwyr a fu'n adrodd am gamdriniaeth i'r swyddfa yn cael eu cyfeirio ymlaen at y ddau adolygiad, ac yn gweithio gyda'r ddau adolygiad i sicrhau bod darpariaeth gwnsela briodol yn cael ei rhoi ar waith.

Rwyf wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch y ddarpariaeth gwnsela i ddiodeffwyr. Rwyf wedi bod yn falch o weld ymdrechion awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru yn cyd-dynnu i sicrhau bod diodeffwyr a thystion yn derbyn asesiadau gwaith cymdeithasol a chymorth cwnsela. Byddaf yn parhau i bwysleisio wrth Lywodraeth Cymru fod angen sicrhau bod cymorth arbenigol digonol ar gael i'r rhai sydd ei angen.

Fe gytunais i fod yn rhan o grŵp Cydlyn Strategol Operation Pallial fel sylwedydd, ac ar y ddealltwriaeth glir fod annibyniaeth Comisiynydd Plant Cymru yn cael ei pharchu'n llwyr, a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yng ngwaith y grŵp.

Fy mhrif amcan wrth weithio gyda'r grŵp cydlyn strategol oedd sicrhau bod unrhyw un a oedd yn dymuno gwneud honiadau ynghylch camdriniaeth a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod pan oeddenn nhw'n blant yng ngofal cynghorau sir Clwyd a Gwynedd ar y pryd yn cael gwrandawriad, cefnogaeth, a thriniaeth sensitif. Bu fy ymwneud â'r grŵp cydlyn strategol hefyd yn fodd i mi gyflwyno at sylw Keith Bristow, oedd yn arwain yr adolygiad, unrhyw bryderon am y ffordd roedd diodeffwyr yn cael eu trin yn ystod Operation Pallial. Roedd hynny'n sicrhau bod modd cymryd camau adferol a rhoi gweithdrefnau priodol ar waith i ddarparu cefnogaeth berthnasol i'r rhai yr effeithiwyd amyn nhw.

By fy Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol yn helpu galwyr i rannu gwybodaeth gyda thimau'r ymchwiliad a'r adolygiad, ac yn sicrhau bod cwnsela therapiwtig priodol ar gael i'r rhai mewn angen.

Operation Pallial and the Macur Review

In November 2012 my office became involved in a significant piece of work relating to the historical abuse of children in north Wales care homes and the Waterhouse report.

On 2 November 2012, the BBC current affairs programme Newsnight broadcast an interview which included allegations of historic child abuse in the North Wales care system – along with a statement that the Waterhouse Inquiry, set up to investigate child abuse in north Wales homes in the 1970s and 1980s, had failed to uncover the full extent of abuse. I made it clear that if there were outstanding issues relating to the Waterhouse report and the abuse that had taken place in the North Wales care homes, these should be investigated thoroughly for the sake of the victims.

Following the broadcast, the North Wales Police, the National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC), National Health Service (NHS) Wales, the Child Exploitation and Online Protection Centre (CEOP) other public and voluntary services, and my office began to receive multiple complaints of historic child abuse related to the North Wales care system.

My office received a total of 99 calls, 48 of which were directly related to abuse in North Wales homes, 24 of which were related to child abuse in other settings.

The intense public interest generated by the allegations made very quickly led to two independent reviews being established.

Operation Pallial was established as an independent investigation examining claims of historical child abuse at children's homes in north Wales. The investigation team was tasked with providing the Chief Constable of North Wales with a report making recommendations for consequential action by the end of April 2013.

The Macur Review, an independent review chaired by Mrs Justice Macur DBE, was tasked with considering the scope of the initial Waterhouse Inquiry and whether any specific allegations of child abuse falling within the terms of reference were not investigated by the Inquiry.

I was very clear that we should be as determined as ever to get to the truth and to make sure the investigations were as thorough and as transparent as possible. We shouldn't forget how difficult this period was for the victims. We need to respect those who don't want to relive their experiences and to ensure there is adequate specialist support available to those who do want to speak out.

My office has worked closely with Operation Pallial and the Macur review ensuring that victims who reported abuse to the office were referred on to the two reviews, and working with both reviews to ensure that appropriate counselling provision was put in place.

I have previously expressed concerns about the provision of counselling for victims. I have been pleased to see the efforts of local authorities from across north Wales pulling together to ensure social work assessment and counselling support is given to victims and witnesses. I will continue to impress on Welsh Government the need to ensure that there is adequate specialist support in place for those who need it.

I agreed to be part of Operation Pallial Strategic Co-ordinating group as an observer and on the clear understanding that the independence of the Children's Commissioner for Wales was absolutely respected and reflected in the work of the group.

My main objective in working with the strategic co-ordinating group was to ensure that anyone who wished to make allegations of abuse which occurred during the time when they were children in the care of the former county councils of Clwyd and Gwynedd were listened to, supported and dealt with sensitively. My involvement with the strategic co-ordinating group also enabled me to bring to the attention of Keith Bristow who was leading the review, any concerns about the way victims were treated during the course of Operation Pallial. This ensured that remedial steps could be taken and adequate procedures put in place to provide the relevant support to those affected.

My independent Investigations and Advice Officers assisted callers to share information with the investigation and review teams and ensured appropriate therapeutic counselling was made available to those in need.



Sut rydyn ni'n craffu llywodraeth Cymru

Hydalen 30
How we
scrutinise Welsh
Government



Prif nod y Comisiynydd wrth ymarfer ei swyddogaethau yw diogelu a hybu hawliau a lles plant, un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw galw Llywodraeth Cymru i gyfrif ar bolisiau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

The principal aim of the Commissioner in exercising his functions is to safeguard and promote the rights and welfare of children, one of the ways in which we do this is to hold Welsh Government to account on policies and legislation affecting children and young people in Wales.

Ad-drefnu

Bu nifer o newidiadau yng nghabinet Llywodraeth Cymru eleni, yn arbennig yn y portffolios sy'n effeithio ar blant. Sefydlwyd portffolio newydd trwy'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Nododd y Prif Weinidog y bydd y portffolio'n canolbwyntio ar amddiffyn teuluoedd a chymunedau ac yn cwmpasu'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi; Cymunedau yn Gyntaf; Cydraddoldebau; Plant; Diwygio Lles a'r Sector Gwirfoddol, yn ogystal â chyfrifoldeb trosfwaol am Ddatblygu Cynaliadwy. Sefydlodd y Prif Weinidog hefyd rôl Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi².

Mae'r cyfrifoldeb am gysylltu â Chomisïynydd Plant Cymru wedi symud oddi wrth y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Rhaid i mi ddiolch i Gwenda Thomas AC am ei gwaith ar faterion plant ac am y berthynas waith iach sydd wedi datblygu rhyngom ni. Roedd y Dirprwy Weinidog yn bendant ei hymrwymiad i symud yr agenda hawliau plant ymlaen yng Nghymru, ac roedd ei gwybodaeth yn y maes yn golygu bod modd cael deialog adeiladol, cadarn. Bu'r Dirprwy Weinidog yn goruchwylïo nifer o ddatblygiadau pwysig, nid lleiaf cyhoeddi'r Cynllun Hawliau Plant cyntaf erioed i Gymru, oedd yn ofynnol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Er nad oes cyfeiriad at blant yn nheitiï portffolio newydd Gwenda Thomas, sef Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod y Dirprwy Weinidog wedi cadw cyfrifoldeb am feysydd hollbwysig ym mywydau plant, er enghraifft darparu gwasanaethau cymdeithasol i blant a goruchwylïo hynny; gwasanaethau mabwysiadu a maethu yng Nghymru, cwynïon, sylwadau ac eiriolaeth o dan Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol; rwy'n sicr y byddwn yn cysylltu â'n gilydd yn aml o dan y trefniadau newydd.

Yn dilyn symudiad Huw Lewis AC i bortffolio Addysg, penodwyd Jeff Cuthbert AC yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Rwy'n edrych ymlaen at datblygu perthynas waith effeithiol gydag ef, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, Vaughan Gething AC. Byddaf yn rhoi pwysau ar y Dirprwy Weinidog i gynnal ffocws ar dlodi plant oddi mewn i'r agenda trechu tlodi.

Byddaf yn monitro â diddordeb sut bydd y cabinet ar ei newydd wedd yn gweithio er lles pennaf plant. Mae nifer o heriau o dan y trefniadau hyn, sef:

— canfod effeithiolrwydd y cysylltiad rhwng portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a meysydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a'r angen am ddileu unrhyw beryglon o ran sut mae meysydd polisi penodol wedi cael eu gwahanu. Enghraifft o hyn yw'r angen am sicrhau bod blaenoriaethau deddfwriaethol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, megis yr elfennau ymyrraeth gynnar sy'n sylfaen ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd llawer o hyn yn dibynnu ar gyflawni trwy'r maes polisi plant a theuluoedd, sydd bellach y tu allan i gyfrifoldeb Gweinidogol Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'n hanfodol bwysig bod Llywodraeth Cymru'n cynnal ei ffocws ar gydlynu hawliau plant ar draws gwahanol feysydd y Llywodraeth, ac yn cydnabod bod hawliau plant yn berthnasol i bob portffolio. Mae gan Weinidog newydd Cymunedau a Threchu Tlodi rôl allweddol o ran cynnig yr arweinyddiaeth sy'n ofynnol yn hyn o beth.

Mae ffurf newydd y cabinet hefyd yn cynnig cryn gyfleoedd. Mae posiblirwydd i gydnabod yn llawn hawliau plant a phobl ifanc fel dinasyddion cyflawn a chydannau gwerthfawr o'n cymuned yn y portffolio 'cymunedau'. Dylai hefyd ein galluogi ni i gyd i gwestiynu'n llawnach sut gallwn ni yng Nghymru osod gwerth ar yr hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w gynnig i gymunedau a gwneud yn fawr ohono. Ar ben hynny, rwy'n falch o weld cydraddoldeb ochr yn ochr â phlant yn y portffolio, ac rwy'n gobeithio y bydd y ffaith fod plant yn rhannu'r portffolio gwrthdlodi yn sicrhau ffocws digonol ar y gofynion penodol sydd yn yr her tlodi plant yng Nghymru.

Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth yr wyf fi wedi'i sefydlu gyda Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu egwyddorion clir ynghylch fy mherthynas â Llywodraeth Cymru sydd, yn fy marn i, yn cadw cydbwysedd cywir rhwng cynnal fy annibyniaeth ar y Llywodraeth trwy alw Gweinidogion i gyfrif,

ond hefyd fy mod yn meddu ar rôl adeiladol. Cyflawnir hyn trwy awgrymu meysydd ar gyfer gwelliant a chynnig yr arbenigedd a geir yn fy swyddfa i hysbysu rhai o'r trafodaethau sydd wedi hynny'n hysbysu penderfyniadau Llywodraeth Cymru, sydd wrth gwrs yn gyfrifoldeb ac yn swyddogaeth i Weinidogion Cymru yn unig.

Heriau i'r Gweinidog Newydd

Adroddiad Cydymffuriaeth

Y llynedd fe nodais mai pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yng nghyd-destun hawliau plant yng Nghymru. O dan y Mesur roedd rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun a fyddai'n amlinellu'r trefniadau a fyddai mewn lle gan Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod hwy a staff Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu weithio ar ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, polisiâu newydd arfaethedig ac unrhyw adolygiad neu newid i bolisi presennol.

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddwyd yr adroddiad cydymffuriaeth cyntaf gan Lywodraeth Cymru.

Y materion allweddol rwyf wedi eu codi yw:

Agwedd gyson a thryloyw at Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Does dim modd i mi ddod i gasgliad pendant ynghylch a yw'r broses Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yn effeithiol neu beidio oherwydd nad oes trefniant ffurfiol, cyson sy'n caniatáu craffu arnynt. Byddai sicrhau'r tryloywder hwn yn hwyluso gwell dysgu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ar draws Cymru'n fwy cyffredinol, yn ogystal â chaniatáu craffu priodol ar gymhwysu dyletswydd sylw dyledus.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar y prosesau hyn, ac mae'n bwysig cofio hynny, ond rwyf hefyd yn credu mai'r gwersi cynnar iawn yw bod angen i ni sicrhau bod proses yr Asesiadau yn dryloyw, yn ogystal â'i ffurfioli.

Nid tasg hawdd yw hynny, oherwydd dylid gweld proses yr Asesiadau fel un sy'n llifo ar draws y broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth, gydag ymatebion a thystiolaeth yn cael eu hadolygu, cyn dychwelyd at yr Asesiad. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n ymddangos mai mater i ddisgresïwn adrannau yw cyhoeddi CRIA o gwbl.

Byddai cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn gyson, gan ganiatáu ymatebion iddynt a rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ymdrin â sylwadau ac adborth, yn helpu i roi sicrwydd bod Gweinidogion Cymru'n gweithredu â meddwl agored ac yn drylwyr wrth lunio polisi a deddfwriaeth. Nid yw hynny'n golygu y byddai'n rhaid i Weinidogion dderbyn barn arall a newid eu bwriadau, ond yn hytrach ymdrin yn adeiladol â'r pryderon neu'r persbectifau eraill.

Materion eraill a godais wrth graffu ar yr adroddiad cydymffuriaeth oedd:

— beth oedd y ffordd orau o sicrhau bod cymhwysiad y Mesur yn destun craffu ar lefel briodol oddi mewn i ddeddfwrf a rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

— eglurder ynghylch y sail ar gyfer adolygu'r Cynllun Hawliau Plant, ac amseriad hynny;

>>>

² Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu dau gam ad-drefnu yn y cabinet. Mae'r ail gam, pryd y penodwyd Jeff Cuthbert AC yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a phryd sefydlwyd swydd newydd Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, y tu allan i'r cylch adrodd blynyddol, ond penderfynwyd cynnwys y datblygiadau hyn er mwyn osgoi dryswch wrth gyhoeddi'r adroddiad.

Reshuffle

There have been a number of changes within the Welsh Government cabinet this year, particularly within portfolios affecting children. A new portfolio was established via the Minister for Communities and Tackling Poverty. The First Minister stated that the portfolio will focus on protecting families and communities and encompass the Tackling Poverty Action Plan; Communities First; Equalities; Children; Welfare Reform and the Voluntary Sector as well as an overarching responsibility for Sustainable Development. The First Minister also established the role of Deputy Minister for Tackling Poverty².

Responsibility for liaison with the Children's Commissioner for Wales has moved from what was the Deputy Minister for Children and Social Services to the Minister for Communities and Tackling Poverty. I must thank Gwenda Thomas AM for her work on children's issues and for the healthy working relationship she and I have developed. The Deputy Minister was resolute in her commitment to progress the child rights agenda in Wales and her knowledge in this field enabled a constructive and robust dialogue. The Deputy Minister oversaw a number of significant developments, not least the publishing of the first ever Children's Rights Scheme for Wales, required by the Rights of Children and Young People (Wales) Measure 2011.

Whilst children are not referred to in Gwenda Thomas' new portfolio title as Deputy Minister for Social Services, given that the Deputy Minister has maintained responsibility for critical areas of children's lives, for instance on the provision of social services for children and its oversight; adoption and fostering services in Wales, complaints, representations and advocacy under the 1989 Children Act in relation to Social Services; I'm sure that we will be engaging on a frequent basis under the new arrangements.

Following Huw Lewis AM's move to the Education portfolio, Jeff Cuthbert AM was appointed as Minister for Communities and Tackling Poverty. I look forward to developing an effective working relationship with him as well as the Deputy Minister for Tackling Poverty, Vaughan Gething AM. I will be pressing the Deputy Minister to maintain a focus on child poverty within the tackling poverty agenda.

I will monitor with interest the way in which the new cabinet formulation will work in the best interests of children. There are a number of challenges under these arrangements, namely:

— ascertaining the effectiveness at which the Social Services portfolio will link into the Minister for Communities and Tacking Poverty areas and the need to negate any dangers regarding how particular policy areas have been divorced from each other. An example of this is the need to ensure effective delivery of legislative priorities such as the early intervention elements which underpin the Social Services and Wellbeing (Wales) Bill. Much of this will depend on delivery via the children and families policy area which now sits outside of the Ministerial responsibility of the Deputy Minister for Social Services.

It is of critical importance that Welsh Government maintains its focus on the co-ordination of children's rights over the disparate areas of Government and acknowledges that children's rights are relevant to all portfolios. The new Minister for Communities and Tacking Poverty has a key role to play in offering the required leadership in this regard.

The new cabinet formation also offers significant opportunities. There is the potential to fully recognise children and young people's rights as full citizens and valuable components of our community within the 'communities' portfolio. It should also enable us all to more fully question how we in Wales can value and capitalise on what children and young people can offer communities. In addition, I welcome equality sitting alongside children within the portfolio and would also hope that having children sharing the anti-poverty portfolio will ensure sufficient focus on the specific requirements within the child poverty challenge in Wales.

The Memorandum of Understanding which I have established with Welsh Government reflects clear principles regarding my relationship with Welsh Government which I believe strikes the appropriate balance between maintaining my independence from Government by holding Ministers to

account but also having a constructive role to play. This is achieved by suggesting areas for improvement and offering the expertise within my office to inform some of the discussions which subsequently inform Welsh Government decision making, which of course is the role and responsibility for Welsh Ministers alone.

Challenges for the New Minister

Compliance Report

Last year I identified the passing of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 as the most significant development within the context of children's rights in Wales. Under the Measure the Welsh Government were obliged to publish a scheme which would outline the arrangements that Welsh Ministers will have in place to make sure that they and Welsh Government staff comply with the duty to have due regard to the UNCRC when working on or developing proposed new legislation, proposed new policies and any review of, or change to existing policy.

In January 2013, the first compliance report was published by Welsh Government.

The key issues I have raised are:

Consistent and transparent approach to Child Rights Impact Assessment (CRIA)

It is not possible for me to fully conclude whether or not the Child Rights Impact Assessments process is effective or otherwise because there is no formal and consistent arrangement which allows for scrutiny of the CRIA. Affording this transparency would facilitate improved learning across Welsh Government departments, as well as across Wales more generally, as well as enabling appropriate scrutiny of the application of the due regard duty.

These processes are in their infancy and it is important to consider this, but I also believe the very early learning is that we need to ensure transparency of the CRIA process as well as formalising the process.

This is not an easy task because the CRIA process should be seen as a fluid one throughout the process of policy and legislative development, with responses and evidence being reviewed and the CRIA revisited. Currently however, it appears that publishing a CRIA at all is at the discretion of departments.

Publishing CRiAs consistently, enabling responses to the assessments and affording Welsh Ministers the opportunity to address comments and feedback would help provide assurances that Welsh Ministers are operating with an open mind and with rigour in formulating policy and legislation. That is not to say that Ministers would be bound to accept alternative views and amend their intentions, but merely to constructively address the concerns or alternative perspectives.

Other issues I raised in scrutinising the compliance report were:

— how best to ensure that the application of the Measure is given the appropriate level of scrutiny within the legislature and the role of the National Assembly for Wales;

— clarity on the basis for and timings for revisions of the Children's Rights Scheme;

>>>

² These developments reflect two cabinet reshuffles. The second, in which Jeff Cuthbert AM was appointed Minister for Communities and Tackling Poverty, and in which the new post of Deputy Minister for Tackling Poverty was established, falls outside the annual reporting cycle, however the decision was taken to include these developments in order that confusion is avoided during publication of the report.

— Mae’n werth craffu’n fanylach i weld a yw deddfwriaeth y Comisiynydd Plant yn cynnig y ddarpariaeth ofynnol er mwyn herio Gweinidogion yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio’r awgrym yn y Cynllun Hawliau Plant y gall y rheiny sydd am herio Gweinidogion Cymru geisio gwneud hynny trwy Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae cynnwys adran sy’n amlinellu effaith y Mesur i’w groesawu, ond yn adroddiadau’r dyfodol bydd angen darparu tystiolaeth fwy cadarn o sut mae’r Mesur yn gwneud gwahaniaeth a rhoi ystyriaeth i ddatblygu mecanwaith gwerthuso ar gyfer gwneud hynny. Mae mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc a datblygu dogfennau hwylus i blant a phobl ifanc yn rhywbeth i’w groesawu, ac mae’n sicr bod y Mesur yn hybu’r agenda hon, ond nid yw hynny ynddo’i hun yn adlewyrchu cymhwysiad digonol o ran sylw dyledus.

Y Camau Nesaf:

O fis Mai 2014, bydd cwmpas y Mesur yn ehangu i gynnwys yr holl swyddogaethau Gweinidogol, a bydd y Cynllun Hawliau Plant yn cael ei ddiweddarau. Nod fy sylwadau yw gwneud cyfraniad adeiladol at ddatblygiad y Cynllun Plant diwygiedig, ac rwy’n edrych ymlaen at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ddatblygu eu gwaith yng nghyswllt y Mesur.

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elfen hanfodol bwysig os yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i gael ei gymhwyso’n effeithiol yw’r craffu gan y ddeddfwrfa ar weithgaredd Llywodraeth Cymru. Mae’n galonogol iawn bod Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dilyn hyfforddiant ar sut mae holi ynghylch cymhwysiad CCUHP yn eu rôl graffu. Mae hyn i’w gymeradwyo, ac rwy’n edrych ymlaen at estyn hyfforddiant perthnasol i bob pwyllgor, fel bod medd i’r holl Aelodau Cynulliad herio Llywodraeth Cymru’n effeithiol. Mae arddull calonogol bod ACau yn holi Gweinidogion ynghylch sut maen nhw wedi cymhwyso CCUHP mewn amrywiol feysydd polisi – hir y parhaed.

Mae’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd i’w longyfarch ar nodi sesiynau crybwr penodol ar gymhwyso’r Mesur Hawliau yn ogystal â chynllun gweithredu CCUHP i Gymru.

Mae’r Mesur nid yn unig yn codi’r bar i Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar gyfer y ddeddfwrfa a’r gymuned hawliau plant yng Nghymru, gan gynnwys fy swyddfa. Wrth alw Llywodraeth Cymru i gyfrif, mae’n bwysig ein bod ni i gyd yn gallu ychwanegu gwerth at ddatblygu polisi a deddfwriaeth yng Nghymru. Mae hynny’n golygu gallu dangos ym mha ffordd rydyn ni’n teimlo bod CCUHP heb ei gymhwyso’n effeithiol eto, gan gynnig dewisiadau amgen ac adborth adeiladol yn yr achosion hynny, yn ogystal â chydabod a chynyddu ymwybyddiaeth o’r achlysuron pryd y gall Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth o gymhwyso hawliau plant yn effeithiol.

Diweddariad Gwneud Pethau’n Iawn – cynllun gweithredu CCUHP i Gymru

Yn ogystal â fframweithiau deddfwriaethol sy’n ymwneud â CCUHP, elfen bwysig o fesurau gweithredu cyffredinol y confensiwn yng Nghymru yw’r cynllun gweithredu cenedlaethol.

Cefais fy siomi gan yr adroddiad cynnydd a’r cynllun gweithredu wedi’i ddiweddarau. Rwy’n cwestiynu a ellir ystyried ei fod yn addas at y diben o gynnig map ffordd i Llywodraeth Cymru ar gyfer sbarduno newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru yng nghyd-destun hawliau. Mae materion yn codi hefyd ynghylch cydlyniant y ddogfen ddiwygiedig, a sut mae’n adlewyrchu gweithgaredd Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd polisi.

Serch hynny, rwy’n deall bod Llywodraeth Cymru yn eglur mai dogfen ‘newidiol’ yw hon, ac rydym yn gobeithio y byddaf yn gallu ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag annog eraill i gryfhau’r ddogfen.

Mae’r gallu i ddarparu tystiolaeth o’r dull strategol, cydlynus hwn o gymhwyso CCUHP gan Lywodraeth Cymru yn rhywbeth y mae’n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo. Elfen allweddol o hyn yw hyfforddiant systemig i weithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau i ddarparu gwasanaethau.

Adroddiadau CCUHP

Mae Parti Gwladol y DU i gyflwyno’u hadroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau’r Plentyn ym mis Ionawr 2014, gan amlinellu sut maen nhw’n credu bod y DU yn cydymffurfio â CCUHP ac yn disgrifio sut maen nhw wedi ymdrin â phryderon ac argymhellion blaenorol a wnaed gan Bwyllgor y CU ar Hawliau’r Plentyn. Byddaf yn monitro datblygiad y cyflwyniad hwn, gan gynnwys cyfraniad Llywodraeth Cymru at adroddiad y parti gwladol, ac rwy’n gobeithio y bydd y broses yn hwyluso trafodaeth iach ynghylch cynnydd ym maes cynnal hawliau plant yng Nghymru.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

Yn sgîl cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2012, etholwyd Comisiynwyr i bob un o bedwar awurdodol yr heddlu yng Nghymru. Fu fues i’n cwrrd â phob un o’r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn gynnar yn 2013.

Fe atwais ar y Comisiynwyr i roi ystyriaeth i bwysau’r dystiolaeth sy’n cefnogi manteision cadarnhaol dulliau sy’n canolbwyntio ar ataliaeth a dargyfeirio yng nghyswllt cyfiawnder ieuencid. Rwyf hefyd wedi nodi fy nisgwyladau o ran yr heddlu yng nghyswllt eu rôl bwysig ym maes diogelu plant a phobl ifanc. Rwyf yn benodol wedi tynnu sylw at fater ymatebion cadarn yr heddlu i blant sy’n mynd ar goll, ac i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin trwy ecsbloetio rhywiol, neu sydd wedi dioddef hynny.

Fe fues i hefyd yn siarad â’r Comisiynwyr am yr angen i herio stereoteipiau negyddol o bobl ifanc, a gysylltir yn aml ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a’u gwahodd i gefnogi fy ymgyrch See Me/Dyma Fi. Rwyf hefyd wedi gofyn i’r Comisiynwyr ddangos ymrwymiad i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar y materion sy’n effeithio ar y cymunedau maen nhw’n eu cynrychioli. Rwy’n falch bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol yn eu hymatebion cychwynnol i mi ar y materion a godais, a byddaf yn cwrrd â nhw eto’n ddiweddarach eleni.

Dileu’r Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Yn ystod datganiad deddfwriaethol cychwynnol Llywodraeth Cymru, a wnaed ym mis Gorffennaf 2011, ymrwymodd y Llywodraeth i:

‘...gyflwyno’r Bil plant a phobl ifanc (Cymru), a fydd yn adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011, a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad diwethaf, ac a fydd yn ehangu rôl Comisiynydd Plant Cymru.’

Ar 17 Gorffennaf 2012, dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd bwriad bellach i symud ymlaen gyda’r Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru), ar sail y rhesymeg bod bwriadau’r Bil wedi’u cynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a chyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru.

Mae’n amlwg nad yw’r bwriadau a nodwyd yn y datganiad deddfwriaethol cychwynnol ar gyfer y Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac nid oedd cyfeiriad o gwbl at ymdrin â fframwaith deddfwriaethol Comisiynydd Plant Cymru yn natganiad 2012.

Mae hyn yn fy siomi, gan fod yr angen am ddiwygio sail statudol swyddfa’r Comisiynydd Plant wedi cael ei dderbyn ers sawl blwyddyn, a bu consensws ar draws y pleidiau yn siambr Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ers blynyddoedd lawer. Mae’r ddeddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru yn perthyn i’r cyfnod hwnnw, ac mae Cymru wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y 12 mlynedd hynny. Hefyd cwestiynwyd cylch gorchwyl y Comisiynydd wrth graffu ar y Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

— It is worth examining further whether or not the Children’s Commissioner legislation offers the required provision to effectively challenge Ministers. This is especially relevant given the suggestion in the Children’s Right Scheme that those wanting to challenge Welsh Ministers may seek to do so via the Children’s Commissioner for Wales.

A section outlining the impact of the Measure is a welcome inclusion, however, in future reports there will be a need to evidence more robustly the way in which the Measure makes a difference and consideration given to develop an evaluation mechanism for doing so. Greater participation of children and young people and development of children and young people friendly documents are welcome and no doubt the Measure assists in promoting this agenda, but in itself, does not reflect a sufficient application of due regard.

Next Steps:

From May 2014, the scope of the Measure will expand to all Ministerial functions and the Child Rights Scheme will be updated. My comments are aimed at constructively contributing to the development of the revised Children’s Scheme and I look forward to engaging with Welsh Government as they develop their work in relation to the Measure.

The Role of the National Assembly for Wales

Of critical importance to the effective application of the Rights of Children and Young People (Wales) 2011 is the scrutiny by the legislature of Welsh Government activity. It is very encouraging that the NAfW Children and Young People Committee undertook training on how to interrogate the application of the UNCRC in their scrutiny role. This is to be commended and I look forward to relevant training being rolled out to all committees so that all Assembly Members can effectively challenge Welsh Government. There are encouraging signs of AMs questioning Ministers regarding how they have applied the UNCRC in various policy areas and long may this continue.

The Children and Young People’s Committee are also to be congratulated on identifying specific scrutiny sessions on the application of the Rights Measure as well as the UNCRC action plan for Wales.

The Measure not only raises the bar for Welsh Government, but also for the legislature and the child rights community in Wales, including my office. In holding Welsh Government to account, it is important that we can all add value to the development of policy and legislation in Wales. This means being able to show the way in which we believe the UNCRC has not been applied effectively, offering alternatives and constructive feedback when this is the case as well as acknowledging and raising awareness of the occasions when Welsh Government can evidence effective application of children’s rights.

Update of the Getting it Right – the UNCRC action plan for Wales

As well as legislative frameworks relating to the UNCRC, an important element of the general measures of implementation of the convention in Wales is the national action plan.

I was disappointed with the progress report and updated action plan. I question whether it can be considered fit for purpose in offering a road map for Welsh Government in driving positive change for children and young people in Wales within a rights context. There are issues regarding the coherence of the revised document and how it reflects Welsh Government activity in a number of policy areas.

I do however, understand that Welsh Government is clear that the action plan is a “fluid” document and we are hopeful that I can further engage with Welsh Government as well as encouraging others to strengthen the document.

The ability to evidence this strategic and co-ordinated approach to the application of the UNCRC by Welsh Government is something which requires

prioritisation. A key element of this is the systemic training of professionals working with children and young people on the application of a rights based approach in the way in which they deliver services.

UNCRC Reporting

The UK State Party is due to submit their Report to the UN Committee on the Rights of the Child in January 2014, outlining how they believe the UK is complying with the UNCRC and describing how they have addressed previous concerns and recommendations made by the UN Committee on the Rights of the Child. I will monitor the development of the submission, including the Welsh Government contribution to the State Party Report and hope that the process will facilitate a healthy debate regarding progress in upholding children’s rights in Wales.

Police and Crime Commissioners

The introduction of Police and Crime Commissioners (PCCs) by the UK Government in November 2012 saw the election of Commissioners to each of the four police authorities in Wales. I met with each Police and Crime Commissioner in early 2013.

I called on the Commissioners to give consideration to the weight of evidence supporting the positive benefits of approaches that focus on prevention and diversion in relation to youth justice. I have also set out my expectations of the police in relation to the important role they play in safeguarding children and young people. Specifically I have drawn attention to the issue of robust police responses to children who go missing and to children and young people at risk of and abused through child sexual exploitation.

I also spoke to the PCCs about the need to challenge negative stereotypes of young people, often associated with anti-social behaviour and invited them to support my See Me/Dyma Fi campaign. I have also asked the PCCs to show a commitment to engage with children and young people on the issues affecting the communities they represent. I am pleased that the Police and Crime Commissioners in Wales have been positive in their initial responses with me on the issues I raised and I will be meeting with them again later in the year.

Removal of the Children and Young Persons (Wales) Bill

During the initial Welsh Government legislative statement made in July 2011, the Government committed to:

‘...introduce the Children and Young Persons (Wales) Bill, which will build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which was introduced during the last Assembly, and which will expand the role of the Children’s Commissioner for Wales.’

On 17 July 2012, the First Minister stated that there was no longer an intention to progress with the Children and Young Persons (Wales) Bill based on the rationale that the intentions of the Bill were incorporated into the Social Services and Wellbeing Bill and the delivery of Sustainable Social Services for Wales.

It is apparent that the intentions noted in the initial legislative statement for the Children and Young Persons (Wales) Bill are not reflected in the Social Service and Wellbeing (Wales) Bill and there was no mention at all of addressing the Children’s Commissioner for Wales’ legislative framework in the 2012 statement.

This is disappointing as the need to reform the statutory basis for the Children’s Commissioner’s office has been accepted over a number of years and there has been a cross party consensus in the National Assembly for Wales (NAfW) Senedd chamber for many years. The Children’s Commissioner for Wales’ establishing legislation is of its time and Wales has moved on considerably in those 12 years. The Children’s Commissioner for Wales’ remit was also questioned during the scrutiny of the Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

Bil Plant a Theuluoedd San Steffan

Y llynedd fe nodais yr ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth y DU i argymhelliaid bod modd cynrychioli buddiannau plant ar draws gwledydd y DU yn llawn gan y Comisiynydd Plant yn yr awdurdodaeth honno. Byddai hynny'n golygu bod modd i mi fod yn weithredol mewn meysydd sydd heb eu datganoli, cyhyd â bod y mater yn ymwneud â Chymru, er enghraifft cyfiawnder ieuencid.

Nod rhan o'r Bil Plant a Theuluoedd yw newid y ddeddfwriaeth ar gyfer Comisiynydd Plant Lloegr, ac mae hynny'n gyfle i ymdrin â mater peidio â chyfyngu ar fy mhwerau mewn meysydd sydd heb eu datganoli. Yn anffodus, nid yw'r Bil arfaethedig yn cynnig ateb, gan nad yw'n cynnwys darpariaeth i newid y ddeddfwriaeth berthnasol. Byddaf yn parhau i geisio dylanwadu ar y broses ddeddfwriaethol a hysbysu cynrychiolwyr Cymru yn San Steffan ynghylch yr angen am ymdrin â'r broblem hon.

Ni welafr unrhwy reswm pam na ddylid rhoi pwerau eang i'r Comisiynydd Plant i ddelio â phob mater sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn golygu datganoli pwerau deddfwriaethol neu weithredol pellach i Gymru. Mewn gwirionedd, mae'n anodd deall pam mae angen cysylltu swyddogaethau'r Comisiynydd Plant â materion datganoledig perthnasol yn unig o gwbl. Rôl Comisiynydd Plant Cymru yw gwasanaethu buddiannau plant yng Nghymru. Yn fy marn i, mae hyn ar wahân i fater pa bwerau deddfwriaethol a gweithredol sy'n cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru.

Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 CCUHP

Yn mis Chwefror 2011 cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn y bwynt yn paratoui Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o'r Confensiwn. Mae Erthygl 31 dweud:

- Mae parhau gwladol yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys hamdden, i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau hamdden priodol ar gyfer oedran y plentyn, ac i gyfranogi'r ddirwystr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.**
- Rhaid i barhau gwladol barchu a hybu hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig, a rhaid iddynt annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, artistig, adloniadol a hamdden.**

Dogfen yw Sylw Cyffredinol a gyhoeddir gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn sy'n darparu dehongliad manwl o erthygl neu fater sy'n ymwneud â'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, ac yn rhoi arweiniad ar y camau sy'n ofynnol gan lywodraethau i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.

Roedd wedi dod yn amlwg i Bwyllgor y CU nad yw Erthygl 31 yn cael ei deall yn dda na'i gwerthfawrogi gan oedolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Y gobaiith, felly, oedd y byddai Parhau Gwladol ar draws y byd yn rhoi mwy o sylw i Erthygl 31 ar hawliau plant yn sgîl cynhyrchu sylw cyffredinol.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) chwarae rhan arweiniol yn y broses o drefnu a datblygu'r Sylw Cyffredinol. Roeddwn wrth fy modd yn cael fy ngwahodd i ymuno â gweithgor rhyngwladol i helpu gyda'r drafftio a fabwysiadwyd gan Bwyllgor y CU ar 1 Chwefror 2013, sef CCUHP.

Yr amcanion a nodir ar gyfer y Sylw Cyffredinol yw:

- Gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd Erthygl 31 i les a datblygiad plant, ac i wireddu hawliau eraill yn y Confensiwn.**
- Darparu dehongliad i Barhau Gwladol o ran y darpariaethau, a'r rhwymedigaethau dilynol, sy'n gysylltiedig ag Erthygl 31.**
- Rhoi arweiniad ar y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n angenrheidiol i sicrhau ei weithrediad i bob plentyn heb gamwahaniaethu, ac ar sail cyfle cyfartal.**

Mae enw da i Gymru a Llywodraeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol mewn perthynas â chwarae plant, o ystyried y ddyletswydd statudol sydd yn ei lle yn Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae chwarae, adloniant, gorffwys, hamdden ac ymwneud â bywyd diwylliannol ac artistig i gyd yn perthyn i'w gilydd, ac yn hanfodol i sicrhau plentyndod hapus, bodlon. Rwy'n cwrrdd â phlant a phobl ifanc bob wythnos yn fy rôl, ac mae'n bwysig helpu oedolion i ddeall pa mor bwysig yw chwarae yn eu bywydau. Rwy'n gwytbod bod hyn yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chymdeithas sifil yng Nghymru. Mae cyhoeddi'r Sylw Cyffredinol yn gyfle delfrydol i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Erthygl 31 ymhellach, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i wneud hynny.

Diwygio Cyfreithiol – Amddiffyniad Cyfartal

Y llynedd fe wnes i gyfeirio at y ddadl sy'n parhau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chrosawu sut bu'r Cynulliad yn pleidleisio ar gynnig i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'.

Byddai'r potensial i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (gweler tudalen 56) gyflawni'r bwriad i wella llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael ei gryfhau'n sylweddol petai mater amddiffyniad cyfartal yn derbyn sylw drwy'r Bil hwn.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar fater amddiffyniad cyfartal i blant a phobl ifanc os ydyw i anfon neges glir i blant a phobl ifanc bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel.

Mae Deddf Plant 2004 yn methu â gwahardd pob cosb gorfforol o fewn y teulu. Lle bo rhiant yn taro plentyn, gall hawlio amddiffyniad sy'n cyfiawnhau hynny – un na fyddai ar gael petai'r dioddefydd dros 16 oed. Nid yw plant, felly, yn derbyn amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith. Rhaid i hyn ddod i ben, ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gynnal eu hymrwymiadau blaenorol i ymdrin â'r achos gwaelodol hwn o dorri hawl plentyn.

Nid oes unrhyw gyfiawnhad posibl dros y diffyg amddiffyniad cyfartal ag oedolion sy'n bodoli ar hyn o bryd.



The Westminster Children and Families Bill

Last year I noted the positive response from the UK Government to a recommendation that the interests of children across the nations of the UK can be fully represented by the Children's Commissioner in that jurisdiction. That would mean that I could be active in areas which are non-devolved as long as the issue related to Wales, for instance youth justice.

Part of the Children and Families Bill is aimed at amending the legislation for the Children's Commissioner for England and this offers an opportunity to address the issue of my powers not being restricted in areas which are not devolved. Unfortunately, the proposed Bill does not offer a solution as it includes no provision to amend the relevant pieces of legislation. I will continue to seek to influence the legislative process and inform Welsh representatives in Westminster of the need to address this problem.

I see no reason why the Children's Commissioner should not be given broad powers to deal with all matters relating to children in Wales. This would not necessarily involve devolving further legislative or executive powers to Wales. In fact it is difficult to understand why the Children's Commissioner's functions need to be linked only to relevant devolved matters at all. The role of the Children's Commissioner for Wales is to serve the interests of children in Wales. I take the view that this is separate from the issue of what legislative and executive powers are devolved to the National Assembly for Wales and Welsh Ministers.

UNCRC Article 31 General Comment

In February 2011 the UN Committee on the Rights of the Child announced that they would prepare a General Comment on Article 31 of the Convention. Article 31 states:

- States parties recognise the right of the child to rest and leisure, to engage in play and recreational activities appropriate to the age of the child and to participate freely in cultural life and the arts.**
- States parties shall respect and promote the right of the child to participate fully in cultural and artistic life and shall encourage the provision of appropriate and equal opportunities for cultural, artistic, recreational and leisure activity.**

A General Comment is a document published by the UN Committee on the Rights of the Child which provides a detailed interpretation of an article or issue relating to the Convention on the Rights of the Child, and provides guidance on the actions required by governments to ensure its implementation.

It had become obvious to the UN Committee that Article 31 is not well understood or appreciated by adults involved directly with children and young people. The hope therefore was that by producing a general comment that States Parties across the world would give greater attention to children's Article 31 rights.

The International Play Association (IPA) were asked by the Committee to take a lead role in the organisation and development of the General Comment. I was delighted to be invited to join an international working group to assist in the drafting which was adopted by the UN Committee on 1 February 2013.

The stated objectives of the General Comment are:

- To enhance understanding of the importance of Article 31 for children's well-being and development, and for the realisation of other rights in the Convention.**
- To provide interpretation to States parties with regard to the provisions, and consequent obligations, associated with Article 31.**
- To provide guidance on the legislative, judicial, administrative, social and educational measures necessary to ensure its implementation for all children without discrimination and on the basis of equality of opportunity.**

Wales and the Welsh Government are viewed very highly on the international stage in relation to children's play given the statutory duty it has in place within Section 11 Children and Families (Wales) Measure 2010. Play, recreation, rest, leisure and involvement in cultural and artistic life are all interrelated and critical to a happy and fulfilling childhood. I meet children and young people every week in my role and it's important to help adults understand how important play is in their lives. I know that this is recognised by Welsh Government, local authorities and civil society in Wales. The publication of the General Comment provides an ideal opportunity to further raise awareness of the importance of Article 31 and I'm looking forward to working with stakeholders in Wales to do just that.

Legal Reform – Equality of Protection

I referred last year to the ongoing debate within the National Assembly for Wales and welcomed the way in which the Assembly voted on a motion to remove the defence of 'reasonable chastisement'.

The potential for the Social Services and Wellbeing (Wales) Bill (see page 57) to deliver on the intention to improve the well-being of children and young people in Wales would be considerably strengthened if the issue of equal protection was addressed through this Bill.

Welsh Government must take action on the issue of equal protection for children and young people if it is to provide a clear message to children and young people that they have the right to be safe.

The Children Act 2004 fails to prohibit all physical punishment in the family. Where a parent hits a child, they are able to claim a justifying defence – one that would not be available if the victim was over the age of 16. As such, children are denied the equal protection of the law. This must not continue and I urge Welsh Government to uphold their previous commitments to address this fundamental breach of a child's right.

The current lack of equality of protection with adults simply cannot be justified.

Sut mae fy nhîm yn ffurfio ac yn dylanwadu ar bolisi

How my team
shape and
influence policy



Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi nifer o gynigion deddfwriaethol ac ymgynghoriadau strategol sy'n darparu ar gyfer polisi sy'n berthnasol i bob oed. Mae Llywodraeth Cymru'n ymagweddu'n 'oed-gynhwysol' i ddatblygiadau polisi, fel yr amlinellir isod.

Rhaid mai un ffocws canolog i'm rôl i yw asesu i ba raddau mae anghenion gwahanol a phenodol plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi. Elfen ganolog o'r asesiad hwn yw'r angen ariannol a dystiolaeth glir bod Gweinidogion wedi cyflawni eu dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP, a bod hynny'n cael ei arddangos yn y canlyniadau deddfwriaethol a pholisi. Yn ystod y 12 mis diwethaf bu gennyf achos i herio Llywodraeth Cymru lle na chafodd tystiolaeth o'r fath ei harddangos yn glir.

Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno cysyniad 'pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt'. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno eu bwriad polisi o ran yr angen am sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu ar sail angen, yn hytrach nag oedran. Yn fy ymatebion polisi i'r broses deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil, rwyf wedi lleisio pryderon ynghylch darpariaeth sy'n cyfuno dyletswyddau yng nghyswllt llesiant pobl mewn un Ddeddf, p'un a ydynt yn blant neu'n oedolion. Rwyf wedi cyflwyno'r manau lle mae'r Bil, yn fy marn i, yn methu â rhoi ystyriaeth lawn i gymhwysio CCUHP.

Bwriad y strategaeth 'Law yn llaw at Iechyd Meddwl' yw dod â gwasanaethau at ei gilydd i greu un system gynhwysfawr, ddi-ffwlch ar gyfer ymddrin ag anghenion iechyd meddwl ar draws pob oedran. Rwyf fi wedi dadlau y gallai colli strategaeth genedlaethol wahanol, unigryw ar gyfer plant a phobl ifanc, a'i disodli â strategaeth i bob oed, o bosib wanhau'r sylw a roddir i fwiadau CCUHP.

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf, fe alwas ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi, a hynny ar frys, Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi a fyddai'n gosod y camau gweithredu ar gyfer tlodi plant oddi mewn i fframwaith a seiliwyd ar hawliau plant. Fodd bynnag, pan gyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi i bob oed ym mis Mehefin 2012, roedd yn destun pryder arbennig i mi bod hyn wedi arwain i bob golwg at golli fframwaith clir seiliedig ar hawliau, oedd yn unol â dyletswydd Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP.

Ers sawl blwyddyn rwyf wedi bod yn galw am strategaeth genedlaethol ar wahân i ofalwyr ifanc. Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y gofyniad am bennod ar wahân ynghylch diwallu anghenion gwybodaeth ac ymgynghori gofalwyr ifanc mewn canllawiau ar y Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru), a gyflwynwyd yn 2012. Adlewyrchwyd y gofyniad hwn hefyd yn nrafft ymgynghori 'Diweddarau'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru', sy'n cynnwys pennod ar wahân ar ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, rwyf wedi dadlau bod rhaid i'r bennod hon gynnig camau gweithredu mwy cadarn yng nghyswllt diogelu hawliau gofalwyr ifanc yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar feysydd polisi eraill megis y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, a'r Fframwaith Adfywio Newydd: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, lle rwyf wedi galw am roi mwy o ystyriaeth i oblygiadau'r fframweithiau polisi fel offerynnau ar gyfer hybu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf byddaf yn parhau i graffu ar gynigion deddfwriaethol a pholisiau Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu, nes fy mod wedi fy modloni eu bod yn gallu darparu cyfeiriad strategol sy'n cynnal parch at CCUHP a'i hyrwyddo. O edrych ymhellach i'r dyfodol, fy rôl fydd asesu ym mha ffyrdd mae'r cyfeiriad polisi cenedlaethol hwn yn effeithio ar gynllunio lleol ac ymarfer yng nghyswllt sicrhau hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.

The past twelve months has seen Welsh Government publish a number of legislative proposals and strategic consultations that provide for policy that applies across all ages. Welsh Government has an 'age-inclusive' approach in relation to policy developments as outlined below.

A central focus of my role must be to assess the degree to which the distinct and specific needs of children and young people are reflected in policies emerging from this approach. Central to this assessment is the need for clear evidence that the duty of due regard to the UNCRC on Welsh Ministers has been applied and is demonstrated within legislative and policy outcomes. Over the past twelve months I have had cause to challenge Welsh Government where such evidence has not been clearly demonstrated.

The Social Services and Well-being (Wales) Bill introduces the concept of 'people in need of care and support'. Welsh Government has set out its policy intent in terms of the need to ensure that social care services are provided on the basis of need and not age. In my policy responses to the legislative process related to the Bill I have voiced concerns about provision that brings together duties in relation to the well-being of people into a single Act whether they are a child or an adult. I have set out the ways in which I believe proposals within the Bill fail to give full consideration to application of the UNCRC.

The 'Together for Mental Health Strategy' is intended to bring services together to form a single, seamless, comprehensive system for addressing mental health needs across all ages. I have argued that the loss of a distinct and separate national strategy for children and young people and its replacement with an all age strategy could potentially dilute regard to the intentions of the UNCRC.

In my last annual report I called on Welsh Government to publish as a matter of urgency a Tackling Poverty Action Plan that would situate actions on child poverty within a child rights based framework. However when the all-age Tackling Poverty Action Plan was published in June 2012 it was of particular concern to me that there is an apparent loss of a clear rights based framework in line with the Ministers duty of due regard to the UNCRC.

I have called over a number of years for a separate national strategy for young carers. The then Deputy Minister for Children and Social Services set out the requirement for a separate chapter on meeting the information and consultation needs of young carers in guidance on the Carers Strategies (Wales) Measure issued in 2012. This requirement has also been reflected in the consultation draft of the 'Refreshing the Carers Strategy for Wales' which includes a separate chapter on young carers. However I have argued that this chapter has to offer more robust actions in relation to securing the rights of young carers in Wales.

I have also responded to Welsh Government consultations on other policy areas such as the Framework for Action on Independent Living, and the Vibrant & Viable Places: New Regeneration Framework where I have called for stronger consideration of the implications of the policy frameworks as tools for promoting the rights of children and young people in Wales.

Over the next twelve months I will continue to scrutinise the legislative proposals and policies of Welsh Government as they develop until I am satisfied that they can provide strategic direction which supports respect for and promotion of the UNCRC. Looking further ahead my role will be to assess the ways in which this national policy direction impacts on local planning and practice in relation to securing the rights and wellbeing of children and young people in Wales.

Agenda rhesymoli

Y llynedd fe gyflwynais yr angen am ddiogelu ffocws clir ar gynnal hawliau plant a phobl ifanc yng nghyd-destun dull mwy diwastraff o integreiddio cynllunio a phartneriaethau. Cyflwynwyd dogfen statudol Llywodraeth Cymru 'Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau' ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r Canllawiau hyn yn disodli canllawiau statudol blaenorol a oedd yn deillio o sawl darn o ddeddfwriaeth: Mesur Strategaethau Cymunedol (Llywodraeth Leol (Cymru)) 2009, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (Deddf Plant 2004, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)) 2010, a Deddf Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (GIG (Cymru)) 2006. Bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw rhesymoli'r broses bartneriaeth a chynllunio ar lefel leol er mwyn lleihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau. Mae Cynlluniau a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi darparu strwythur penodol ar gyfer cefnogi cynllunio a darpariaeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc oddi mewn i fframwaith sydd â chysylltiad uniongyrchol â CCUHP. Rwy'n bwriadu asesu i weld a yw'r un ffocws ar gynllunio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc fel rhan o ymagweddiad cysylltiedig â CCUHP yn cael ei adlewyrchu yn y Cynlluniau Integredig Sengl lleol.

Nod 1: Dechrau'n deg mewn bywyd

Cymorth i Deuluoedd

Edrych yn ôl

Rwyf wedi croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn rhaglen o fentrau a luniwyd i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i deuluoedd mewn modd cyfannol. Mae cynnodau arloesi'r mentrau hyn bellach wedi'u cwblhau, ac mae darpariaeth awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gwneud cynnydd yn 2012. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y rhaglenni cymorth i deuluoedd blaenllaw a amlinellir isod yn sylweddol, ac mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi bod yn gweithio mewn tirlun lle ceir newid sylweddol i bolisi ac ymarfer er mwyn eu rhoi ar waith. Mae'r ffaith bod pob un o'r rhaglenni hyn yn targedu plant agored i niwed a'u teuluoedd, a bod system o werthuso parhaus ar waith yn arwyddocaol i mi o ran sicrhau bod bwriad polisi yn cael ei drosi'n well cyfleoedd a chanlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Wrth edrych ymlaen rwyf am sicrhau bod yr ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar y teulu yn cynnwys ffocws cadarn ar ddiwallu anghenion penodol, gwahanol plant a phobl ifanc yn y teuluoedd hynny. Byddaf yn parhau i ystyried canfyddiadau'r prosesau gwerthuso sydd ar waith wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynnyddoedd Cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant o dan 4 oed, ac mae'n targedu cymunedau difreintiedig. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Strategol newydd ar gyfer Dechrau'n Deg ym mis Ebrill 2012 i hysbysu datblygiad cynllun strategol 3 blynedd gan awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae 4 elfen graidd i'r rhaglen: gofal plant rhan amser i bob plentyn 2-3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg; cynnig gwasanaeth Ymweliadau Iechyd Lefel uwch; rhaglen a chymorth magu plant a datblygu iaith gynnar. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r rhaglen er mwyn dyblu nifer y plant mewn cymunedau difreintiedig sy'n elwa o gymorth yn y blynnyddoedd cynnar, o 18,000 i 36,000 erbyn 2015. Ar hyn o bryd mae 140 o leoliadau ledled Cymru lle gall rhieni gyrchu cymorth Dechrau'n Deg, a chyhoeddwyd arian cyfalaf newydd hefyd yn 2012 i helpu i ddarparu 146 o ganolfannau ychwanegol. Mae tystiolaeth gref i ddangos bod ymyrraeth ym mlynnyddoedd cynnar bywydau plant yn allweddol i'w cefnogi i sicrhau gwell canlyniadau wrth iddynt dyfu i fyny. Yn bwysig, mae Dechrau'n Deg yn destun gwerthuso parhaus i'r rhaglen ar lefel genedlaethol.

Teuluoedd yn Gyntaf

Rhaglen o eiddo Llywodraeth Cymru yw Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae'n hybu systemau amlasiantaeth i ddarparu cymorth cyfannol i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £42 miliwn yn ystod 2012-13 ar gyfer y rhaglen. O fis Ebrill 2012 roedd disgwyl i bob awdurdod lleol ddatblygu a gweithredu asesu ar y cyd, model fim o gwmpas y teulu, gwasanaethau wedi'u targedu oedd yn canolbwyntio ar y teulu, cyfres ddysgu rhwng awdurdodau, a chynigion i wella'r cymorth i blant a phobl ifanc anabl. Mae canfyddiadau Cyfres Ddysgu Genedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf yn awgrymu bod nifer o heriau i weithredu'r rhaglen ar lefel leol, ac mae atebion wedi cael eu cynnig. Mae'r heriau'n cynnwys datblygu dealltwriaeth amlasiantaeth o asesu ar y cyd a dull y fim o gwmpas y teulu, cefnogi defnydd priodol o systemau atgyfeirio, a rhoi cytundebau a systemau rhannu gwybodaeth ar waith. Mae gwahanol ardaloedd yn defnyddio gwahanol systemau a strwythurau i weithredu egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad tair blynedd o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Gorffennaf 2012.

>>>



Rationalisation agenda

Last year I set out the need to safeguard a clear focus on upholding the rights of children and young people in the context of the integration of planning and partnerships. Welsh Government statutory guidance: 'Shared Purpose, Shared Delivery: Guidance on Integrating Partnerships and Plans' was issued in December 2012. This Guidance replaces previous statutory guidance from a number of pieces of legislation: Community Strategies (Local Government (Wales) Measure 2009), Children and Young People's Plans (Children Act 2004, Children and Families (Wales) Measure 2010), and Health Social Care and Well-being Strategies (NHS (Wales) Act 2006). Welsh Government's policy intention is to rationalise the partnership and planning process at the local level in order to reduce complexity and duplication and free up resources. Children and Young People's Plans and Partnerships have provided a distinct structure to support local planning and provision for children and young people within a framework directly linked to the UNCRC. I intend to assess if the same focus on planning to meet the needs of children and young people within an approach linked to the UNCRC is reflected in local Single Integrated Plans.

Aim 1: Flying start in life

Family Support

Looking back

I have welcomed Welsh Government's investment in a programme of initiatives designed to provide early intervention and support for families in a holistic way. The pioneer phases of these initiatives are now complete and local authority delivery across Wales has progressed in 2012. Welsh Government investment in the flagship family support programmes outlined below is considerable and local authorities and their partners have been working in a landscape of considerable policy and practice change in order to implement these. The fact that each of these programmes is targeted at vulnerable children and their families and that a system of on-going evaluation is in place is significant for me in terms of ensuring that policy intent translates into improved opportunities and outcomes for children and young people in Wales. Looking forward I want to ensure that family focussed intervention includes a strong focus on meeting the specific and distinct needs of children and young people within those families. I will continue to consider the findings of the evaluation processes is in place as they are published.

Flying Start

Flying Start is the Welsh Government's flagship Early Years programme for families with children who are under 4 years old and is targeted at deprived communities. Welsh Government issued new Flying Start Strategic Guidance in April 2012 to inform the development of a 3 year strategic plan by local authorities and their partners. The programme has 4 core elements: part-time childcare for all 2-3 year olds in Flying Start areas; an enhanced health visiting service offer; parenting programme and support and early language development. I am pleased that Welsh Government has committed to expanding the programme to double the number of children in disadvantaged communities benefiting from early years support from 18,000 to 36,000 by 2015. There are currently 140 locations across Wales where parents can access Flying Start support and the new capital funding was also announced in 2012 to help provide an extra 146 centres. There is strong evidence to demonstrate that intervention in the early years of children's lives is key to supporting them in securing better outcomes as they grow older. Importantly, Flying Start is subject to ongoing programme evaluation at a national level.

Families First

Families First is a Welsh Government programme that promotes multi-agency systems to provide holistic support to families, particularly those living in poverty. Welsh Government provided £42 million funding during 2012-13 for the programme. From April 2012 all local authorities were expected to develop and implement joint assessment, a team around the family model, targeted family-focused services, an inter-authority learning set and proposals to improve support for disabled children and young people. Families First National Learning Set findings suggest that there are a number of challenges to implementing the programme at the local level and solutions have been put forward. The challenges include developing a multi-agency understanding of the joint assessment and team around the family approach, supporting appropriate use of referral systems and implementing information sharing agreements and systems. Different areas are using different systems and structures to implement the principles of Families First. Welsh Government commissioned a three-year evaluation of the Families First programme in July 2012.

>>>

Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd (IFSS)

Cyflwynwyd Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd (IFSS) trwy'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Dechreuodd ardaloedd arloesi weithredu'r rhaglen ym mis Medi 2010, a bydd IFSS yn gweithredu ym mhob ardal yng Nghymru erbyn diwedd 2013. Mae'r rhaglen IFSS yn canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth, lle gall plentyn/plant fod mewn perygl o ganlyniad i broblemau camddefnyddio sylweddau'r rhieni. Cyflwynir y rhaglen ar ffur dull teuluoel integredig, cyfannol a ddarperir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid bwrdd iechyd lleol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Timau Cymorth Integredig i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) yn 2012, i gefnogi'r dull rhagnodol a ddefnyddiwyd yn y cymorth a'r ymyrraeth a gynigiwyd trwy'r rhaglen. Cyhoeddwyd adroddiad interim cyntaf gwerthusiad parhaus yr IFSS ym mis Mai 2012 ac mae'n cynnig arweiniad ar y gwersi a ddysgwyd yn sgîl cyfnod cynnar y rhaglen.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithrediad eu rhaglenni cymorth i deuluoedd blaenllaw yn cynnwys ffocws pendant ar ddiwallu anghenion unigryw plant a phobl ifanc, a hynny oddi mewn i ddull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu.

Magu Plant

Edrych yn ôl

Yn adroddiad y llynedd galwais ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau a fyddai'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth magu plant cyffredinol i rieni plant, yn unol â'r pŵerau a nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Galwais hefyd am i ganllawiau o'r fath gynnig cyfeiriad ar gyfer y ddarpariaeth i gynnal gofalwyr sy'n perthyn, gofalwyr maeth, gofalwyr mabwysiadol a rhieni sydd â phlentyn anabl. Rydym yn dal heb ganllawiau na strategaeth genedlaethol gyfredol i sbarduno darparu cymorth i bob rhiant a gofalwr yng Nghymru.

Yn ôl Erthygl 18 o CCUHP, at ddibenion gwarantu a hybu hawliau'r Confensiwn, dylid darparu cymorth priodol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol gyflawni eu dyletswyddau magu plant. Mae rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd plentyn, ac mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol fwy o ddyletswyddau i gymryd camau i atal a lleihau anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Dylai cymorth magu plant cyffredinol i rieni a gofalwyr fod yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd angen cyfeiriad cenedlaethol clir o hyd ar ddeiliaid dyletswydd ar lefel leol, er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i ddulliau cadarnhaol o fagu plant, er lles pennaf y plentyn, yn cael ei darparu'n gyson ledled Cymru.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau a fydd yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gymorth magu plant cyffredinol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol i hysbysu gweithrediad dyletswyddau uwch er hybu llesiant, fel y nodwyd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2013.

Plant sy'n dioddef effaith carchariad rhieni

Nid oes data lefel Cymru ar gael ar nifer y plant yng Nghymru sy'n dioddef effaith carcharu rhiant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y DU yn awgrymu y bydd 7 y cant o'r boblogaeth ysgol yn profi carchariad rhiant ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ymchwil hefyd yn dweud wrthym fod plant sydd â charcharor yn y teulu yn debygol o brofi ystod o anawsterau emosiynol, yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi, yn llai tebygol o fwynhau canlyniadau addysg da, ac mewn mwy o berygl o ddiodeff canlyniadau gwael wrth heneiddio.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cael cyfle i ymgysylltu mewn nifer o ddiwyddiadau ac ymweliadau i ddysgu mwy am y gwaith cymorth i deuluoedd pwysig sy'n datblygu mewn carcharau yng Nghymru. Mae rhai enghreifftiau ardderchog o arloesi, gyda'r carchar a'r gwasanaethau cymunedol yn cydweithio i gynnal teuluoedd, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau i'r plant. Hoffwn i weld y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod y plant hyn, y mae eu hanghenion yn aml yn parhau'n anweledig i'r gwasanaethau prif ffrwd, yn gallu gwirredu eu hawliau heb gamwahaniaethu yn eu herbyn, yn unol ag Erthygl 2 o CCUHP.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu mesurau a fydd yn sicrhau bod eu rhaglenni blaenllaw megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn ymgysylltu'n rhagweithiol â theuluoedd y mae carcharu rhiant wedi effeithio arnynt.



Integrated Family Support Services (IFSS)

Integrated Family Support Services (IFSS) were introduced through the Children and Families (Wales) Measure 2010. Pioneer areas started operating the programme in September 2010 and IFSS will operate in all areas in Wales by the end of 2013.

The IFSS programme is focused on supporting families with complex needs, where a child/children can be at risk as a result of parental substance misuse problems. The programme is delivered through an integrated and holistic family approach provided by local authorities and their local health board partners. Welsh Government issued Integrated Family Support Teams (Composition of Teams and Board Functions) (Wales) Regulations in 2012, in support of the prescriptive approach used in the support and intervention offered through the programme. The first interim report of the on-going evaluation of IFSS was published in May 2012 and offers direction on the lessons learnt from the early phase of the programme.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to ensure that the implementation of their flagship family support programmes includes a strong focus on meeting the distinct needs of children and young people within a holistic family focussed approach.

Parenting

Looking back

In last year's report I called on Welsh Government to publish guidance to support local authorities in securing the provision of universal parental support services to the parents of children in line with powers set out in the Children and Families (Wales) Measure 2010. I also called for such guidance to provide direction on provision to support kinship carers, foster carers, adoptive carers and parents who have a disabled child. There is still no guidance or current national strategy to drive the provision of support to all parents and carers in Wales.

Article 18 of the UNCRC provides that for the purpose of guaranteeing and promoting the rights of the Convention, appropriate assistance should be provided to parents and legal guardians in the performance of their child-rearing duties. Parents and carers have a pivotal role in the life of a child and we must do all we can to support them. The Social Services and Well-being (Wales) Bill affords enhanced duties on local authorities and Local Health Boards to take steps to prevent and reduce the needs for care and support of people in their area. Universal parenting support to parents and carers should be a key component of provision to meet this duty. Local duty bearers will still need clear national direction from Welsh Government to ensure that support for positive parenting in the best interests of the child is consistently delivered across Wales.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to publish guidance to provide clear strategic direction on universal parenting support for parents and legal guardians to inform the implementation of enhanced duties to promote well-being as contained in the Social Services and Well-being (Wales) Bill 2013.

Children affected by parental imprisonment

There is no Wales level data available on the number of children in Wales who are affected by the imprisonment of a parent. However UK evidence suggests that 7 per cent of the school population will experience the imprisonment of a parent at some point during their time in school. Research also tells us that children with a prisoner in the family are likely to experience a range of emotional difficulties, are at greater risk of developing mental health problems, more likely to live in poverty, less likely to enjoy good educational outcomes and at greater risk of poor outcomes as they grow older.

Over the past 12 months I have had the opportunity to engage in a number of events and visits to learn more about the important family support work that is developing in prisons in Wales. There are some excellent examples of innovation where the prison and community services are working together to support families with the aim of securing better outcomes for children. I would like to see this work developed further to ensure that these children, whose needs often remain invisible to mainstream services, are able to realise their rights without discrimination in line with Article 2 of the UNCRC.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to put in place measures to ensure that their flagship programmes such as Flying Start and Families First proactively engage with families affected by parental imprisonment.

Nod 2: Mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu

Trefniadaeth Ysgolion

Edrych yn ôl

Y llynedd fe alwais ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau a fyddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod fel rhanddeiliaid allweddol yng nghyswllt y prosesau ymgysylltu sy'n gysylltiedig â safonau a threfniadaeth ysgolion. Rwy'n falch bod y Cōd Trefniadaeth Ysgolion Drafft, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2012, yn nodi bod rhaid i gynnywyr wneud trefniadau i ymgynghori â disgyblion o unrhyw ysgol yr effeithir arni, a phennir ymgynghori â chynghorau ysgol fel isafswm. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Cōd Trefniadaeth Ysgolion Drafft hefyd yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau oed-briodol, ac yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at safonau cyfranogiad cenedlaethol. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnal bwriadau Erthygl 12 (hawl plant i fynegi barn yn rhydd ac bob mater sy'n effeithio arnynt) ac Erthygl 13 (yr hawl i dderbyn a rhoi gwybodaeth trwy gyfrwng o ddewis y plentyn) o CCUHP. Rwy'n gobeithio y bydd canllawiau a rheoliadau dilynol a gyflwynir o dan y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn adlewyrchu darpariaethau CCUHP mewn modd tebyg.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r Gweinidog hefyd wedi cyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol newydd ar gyfer addysg 3-16 yng Nghymru – 'Gwella Ysgolion'. Mae'r cynllun yn cynnwys tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella ansawdd y dysgu a'r addysg a chanlyniadau addysgol dysgwyr yng Nghymru: gwella llythrennedd, gwella rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol clir i ddarparu'r addysg ledled Cymru. Mae'r sbardun strategol cadarn hwn a'r mesurau sy'n cael eu sefydlu i gefnogi athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu yn darparu sylfaen ar gyfer newid i gynnal hawl pob plentyn i gael addysg (Erthygl 28, CCUHP). Fodd bynnag, mae'r achosion sy'n dal i gaeu'r addysg fy swyddfa yn dangos yn eglur i mi na ddylem danbrisiu'r her sy'n dod o'n blaenau o ran sicrhau'r cynnig addysgol mae pob plentyn yn ei hysylltu. Rwy'n falch, felly, bod y Gweinidog wedi gofyn i OECD (y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) gynnal adolygiad o'r trefniadau diwygio cyfredol ac amlygu meysydd polisi a darpariaeth a fydd yn chwahanegu gwerth at y rhaglen ddiwygio.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi cychwyn adolygiad annibynnol manwl (adolygiad Hill) i effeithiolrwydd y system darparu addysg gyfredol, ar lefel ysgol ac awdurdod lleol. Cyhoeddwyd yr adolygiad fis Tachwedd diwethaf, ac mae'n canolbwyntio ar yr opsiynau cyflwyno er mwyn cynnal y gwaith o wella ysgolion, arweinyddiaeth ysgolion a chanlyniadau dysgwyr.

Llesiant dysgwyr

Cyhoeddwyd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn yng nghyswllt effeithiolrwydd ysgolion wrth drechu tlodi ac anfantais yn 2012, ac mae'n cyflwyno achos cryf dros bwysigrwydd cynnal llesiant disgyblion er mwyn sicrhau cyrhaeddiad. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod yr ysgolion sy'n effeithiol o dan amgylchiadau heriol yn ymagwedd fel ysgol gyfan, ac yn meddu ar systemau cydlynus, strwythuredig i godi cyflawniad. Seilwyd y dull hwn ar ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng llesiant disgyblion a safonau. O ganlyniad, mae ffocws ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a chynnal anghenion cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr. Mae ysgolion effeithiol hefyd yn rhoi pwyslais ar wrando ar ddysgwyr a rhoi cyfleoedd iddynt gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Nododd Estyn hefyd fod ysgolion effeithiol yn ymgysylltu â dysgwyr mewn cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol, ac yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Mae ysgolion effeithiol yn canolbwyntio'n barhaus ar bresenoldeb da, prydlondeb ac ymddygiad cadarnhaol, yn meddu ar system addas o gosbau, ond yn canfod bod systemau gwobrwyo'n gweithio'n arbennig o dda. Mae Estyn yn nodi cyfanswm o 10 elfen o arfer da. Byddwn i'n disgwyl i unrhyw newidiadau a gyflwynir yn dilyn yr adolygiad sicrhau bod strwythurau a systemau cryf yn eu lle i gynnal diogelu a hybu llesiant y dysgwyr, yn unol â thystiolaeth Estyn ynghylch arfer effeithiol gyda dysgwyr sydd o dan anfantais.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru yn cynnwys ffocws clir ar lesiant dysgwyr a'u diogelu.

Cyfranogiad mewn lleoliadau addysg

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad diwethaf fe nodais y cyfraniad sylweddol rwyf i'n credu y gall cyfranogiad mewn lleoliadau addysg ei wneud i agenda gwella ysgolion. Soniais hefyd am fy siom fod tystiolaeth o arolwg 2011 Llywodraeth Cymru ar ymgysylltiad disgyblion yn awgrymu bod plant a phobl ifanc yn dal i adrodd nad oeddent yn cael gwrandawriad ystyrlon. Cyhoeddodd Estyn eu hadroddiad ar 'Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion' yn 2012. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod yr ysgolion llwyddiannus sy'n wynebu amgylchiadau heriol wedi canfod bod mentrau i ddatblygu ymgysylltiad dysgwyr a'r penderfyniadau a wneir ganddynt yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar uchelgais y dysgwyr, eu safonau, eu presenoldeb a'u hymddygiad.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ac ail-lansio gwefan Llais Disgyblion Cymru y llynedd, ac rwy'n gobeithio y bydd ysgolion yn defnyddio'r safle yn adnodd i gynnal eu hymarfer.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru ac Estyn i symud ymlaen mewn ymateb i'm galwadau yn y gorffennol ynghylch yr angen am adolygiad thematig o safonau cyfranogiad ac ymarfer mewn ysgolion yng Nghymru.

Diogelu ym myd addysg

Edrych yn ôl

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r pryderon a godais ynghylch y meini prawf ar gyfer atgyfeirio pryderon amddiffyn plant, drwy gyhoeddi, yn gynharach eleni, ganllawiau diwygiedig ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer staff ysgolion. Ymddengys bod y canllawiau diwygiedig yn darparu cyngor cliriach a mwy cadarn i gyrrff llywodraethu ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion dderbyn yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r gweithdrefnau newydd fel y bwriadwyd.

Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru hefyd yn adnewyddu'r canllawiau diogelu ym myd addysg ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu, a gyflwynwyd yn 2007. Rwy'n gobeithio bod y newidiadau a wnaed i'r canllawiau yn adlewyrchu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP, ac o ganlyniad yn cynnwys cyfarwyddyd clir ar egwyddor lles pennaaf (Erthygl 3), yn ffocws i arfer diogelu mewn lleoliadau addysg.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl weithrediad y canllawiau newydd ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo i staff ysgolion.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP wrth adnewyddu'r canllawiau diogelu ym myd addysg i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu, er mwyn gwneud egwyddor lles pennaaf yn fwy effeithiol (Erthygl 3).

Aim 2: Access to education, training and learning opportunities

School Organisation

Looking back

Last year I called on Welsh Government to introduce measures to ensure that children and young people be recognised as key stakeholders in relation to the engagement processes associated with school standards and organisation. I am pleased that the Draft School Organisation Code issued by Welsh Government in October 2012 states that proposers must make arrangements to consult with pupils of any affected school and consultation with school councils is set as a minimum. I welcome the fact that the Draft School Organisation Code also sets out requirements for the production of information in age appropriate formats and includes direct reference to national participation standards. These provisions support the intentions of Article 12 (the right of children to express views freely in all matters affecting them) and Article 13 (the right to receive and impart information through media of the child's choice) of the UNCRC. I hope that subsequent guidance and regulation issued under the School Standards and Organisation (Wales) Bill will reflect the provisions of the UNCRC in a similar way.

In the past twelve months the Minister has also published a new national implementation plan for 3 to 16 education in Wales – 'Improving Schools'. The plan contains three key priorities for improving the quality of learning and teaching and of educational outcomes for learners in Wales: to improve literacy, improve numeracy and reduce the impact of deprivation on educational outcomes. I welcome the fact that Welsh Government is providing strong national leadership and direction to education providers across Wales. This strong strategic drive and the measures being put in place to support teachers, head teachers and governing bodies provides the basis for change to support every child's right to an education (Article 28, UNCRC). However, the cases that continue to come into my office make it clear to me that we should not underestimate the challenge ahead in securing the educational offer every child deserves. I am therefore pleased that the Minister has asked the Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD) to undertake a review of the current reform arrangements and to highlight areas of policy and provision that will add value to the reform programme.

The Minister has also initiated an in-depth independent review (the Hill review) into the effectiveness of the current education delivery system, at school and local authority level. The review was announced last November and focuses on options for delivery to support school improvement, school leadership and improved learner outcomes.

Learner well-being

Evidence presented by Estyn in relation to school effectiveness in tackling poverty and disadvantage was published in 2012 and provides a strong case for the importance of supporting pupil well-being in order to secure attainment. The report suggests that effective schools in challenging circumstances take a whole-school approach which involves coherent and structured systems to raise achievement. This approach is based on an understanding of the relationship between pupil well-being and standards. As a result there is a focus on developing the social and emotional skills and supporting the social and emotional needs of learners. Effective schools also place importance on listening to learners and providing them with opportunities to participate fully in the life of the school. Estyn also identified the fact that effective schools engage learners in a rich extra-curricular offer and engage well with parents and carers to help them and their children overcome barriers to learning. Effective schools have a persistent focus on good attendance, punctuality and positive behavior, had suitable sanctions in place but found that reward systems work particularly well. Estyn identify 10 elements of good practice in total. I would expect any changes introduced following the review to ensure that there are strong structures and systems in place to support safeguarding and the promotion of learner well-being in line with Estyn's evidence on effective practice with disadvantaged learners.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to ensure that reforms to the education system in Wales include a clear focus on learner well-being and safeguarding.

Participation in education settings

Looking back

In my last report I set out the significant contribution I believe participation in education settings can make to the school improvement agenda. I also signalled my disappointment that evidence from Welsh Government's 2011 survey on pupil engagement suggested that children and young people were still reporting that they were not being listened to in a meaningful way. Estyn published their report on 'Effective practice in tackling poverty and disadvantage in schools' in 2012. The report is clear that successful schools in challenging circumstances have found that initiatives to develop learners' involvement and decision-making in school have a positive impact on learners' ambition, standards, attendance and behaviour.

I welcome that Welsh Government updated and relaunched the Pupil Voice Wales website last year and I hope that schools will use the site as a resource to support their practice.

Looking forward

I am calling on Welsh Government and Estyn to progress my past calls in relation to the need for a thematic review of participation standards and practice in schools in Wales.

Safeguarding in education

Looking back

Welsh Government has responded to the concerns I raised about the criteria for referring child protection concerns with the publication earlier this year of revised guidance on disciplinarily and dismissal procedures for school staff. The revised guidance appears to provide clearer and more robust advice to school governing bodies. However head teachers and school governing bodies must get the training and support needed to ensure that they are able to utilise the new procedures as intended.

I am aware that Welsh Government is also refreshing the safeguarding in education guidance for local authorities and governing bodies that was issued in 2007. I hope that the changes made to the guidance reflect the duty to have due regard to the UNCRC and as a result include clear direction on the best interest principle (Article 3) as the focus of safeguarding practice in education settings.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to closely monitor the implementation of new guidance on disciplinary and dismissal procedures for school staff.

I am calling on Welsh Government to apply the duty to have due regard to the UNCRC in the process of refreshing safeguarding in education guidance for local authorities and governing bodies in order to give greater effect to the best interest principle (Article 3).

Cwynion addysg

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf fe gyflwynais fy mhryderon ynghylch oedi wrth gyhoeddi canllawiau cwynion i gyrrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn bellach wedi'u cyflwyno, ac maent yn cydnabod y diffygion difrifol sydd wedi bodoli yng nghyswllt cydymffurfio â gweithdrefnau cwynion. Ymddengys bod y Canllawiau'n cynnig cyfarwyddyd clir i gyrrff llywodraethu yng Nghymru ar gyfer ymarfer eu dyletswyddau yng nghyswllt trafod cwynion. Mae angen gwneud gwaith yn awr i sicrhau bod llywodraethwyr a phenaethiaid yn derbyn cymorth i ddeall gofynion y canllawiau newydd.

Rwy'n dal i bryderu, er bod y canllawiau cwynion yn cynghori cyrrff llywodraethu i gytuno i ymchwiliad annibynnol, lle bo'r awdurdod lleol yn cynghori hynny, nad oes hawl gan ddisgyblion a rhieni sy'n gwneud cwyn yn erbyn darparwr addysg i droi at gorff ymchwilio annibynnol.

Yng Nghymru, mae gweithdrefn gwynion enghreifftiol newydd i Gymru gyfan wedi cael ei chyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno manteision y dull hwn o ran sicrhau cysondeb wrth drafod cwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn gynt ac ar y lefel briodol, a sicrhau bod y dull o'u datrys yn arwain at welliannau yng nghyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus. Mae proses tri cham i'r cynllun enghreifftiol, ac mae'n cynnwys ystyriaeth allanol annibynnol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng Cham 3. Ni chynhwyswyd lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y cynigion, gan fod cynlluniau cwyno statudol yn y ddau sector fel ei gilydd. Fodd bynnag, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori'r llynedd ar newidiadau arfaethedig i weithdrefnau cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb i'r cynllun cwynion enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf wedi croesawu'r cynigion i ddarparu proses sy'n hysbysu'r cynnal gweithdrefn gyffredin ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng nghyswllt cwynion gwasanaethau cymdeithasol, ond gan gwrthdaro'rhai pryderon ar yr un pryd ynghylch yr angen am gefnogi'n well ddealltwriaeth plant a phobl ifanc o'u hawl i gwyno a'u hawliau yn y broses gwynion. Ni allaf weld rheswm da pam na ddylai'r ddarpariaeth addysg fod yn destun y cynllun cwynion enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae tystiolaeth o hyd y gall plant, pobl ifanc a rhieni gael trafferth i ddeall eu hawl i gwyno neu beth all fod yn sail ar gyfer cwyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n cynnwys gwybodaeth am gwynion enghreifftiol i ddisgyblion, ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei rannu gyda'r disgyblion. Rwyf hefyd yn credu y gallai'r wybodaeth honno gael ei gwella.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n ofalus weithrediad y canllawiau newydd ar gwynion ysgol.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu mesurau a fydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg yn cyfateb i'r cynllun cwynion enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Presenoldeb ac Ymddygiad

Yn gynharach eleni fe wnes i ddarparu tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bresenoldeb ac Ymddygiad. Roedd yr ymchwiliad hwn yn ystyried y materion a godwyd trwy adroddiad NBAR (yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb) (2008). Roedd y dystiolaeth a gasglwyd i hysbysu fy sylwadau i'r Pwyllgor yn codi nifer o bryderon i mi.

Rheoli ymddygiad

Mae tystiolaeth a archwiliwyd yng nghyswllt ymchwiliad y Pwyllgor yn awgrymu bod rhieni yn dal yn brin o hyder yng ngallu athrawon i ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb yn 2013, ac mae hefyd wedi lansio gwefan Dysgu Cymru i ddarparu gwybodaeth, canllawiau ac astudiaethau achos yng nghyswllt meysydd gwelliant, yn cynnwys ymddygiad a phresenoldeb. Fodd bynnag, testun siom yw nad yw 'Hwb' dysgu rhithiol Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn ddiweddar ac sy'n darparu adnoddau ystafell dosbarth, ar hyn o bryd yn cwmpasu materion rheoli ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb. Canfu arolwg Estyn o'r trefniadau mewn unedau cyfeirio disgyblion (2012) mai'r unedau a oedd wedi mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliaeth a achredwyd gan Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain oedd y rhai mwyaf effeithiol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod gan yr unedau staff a oedd wedi'u hyfforddi'n dda ac a oedd yn hyderus wrth ddefnyddio technegau i dawelu sefyllfaoedd a allai fod yn heriol.

Gwaharddiadau o'r ysgol

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y gostyngiad yn y gwaharddiadau parhaol o ysgolion yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi parhau. Fodd bynnag, yn 2010/11 roedd 158 o waharddiadau parhaol o hyd o leoliadau addysg yng Nghymru. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y cyfnod 2010/11 oedd 'herio'r rheolau'. Rhyddhawyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn 2012, ac mae'n eglur na ddylid penderfynu gwahardd dysgwyr ond lle bu achos difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol neu lle gallai ymddygiad disgybl niweidio'n ddifrifol allu eraill i ddisgu. Nid wyf yn eglur ynghylch pa brosesau sydd yn eu lle i gefnogi ymwybyddiaeth disgyblion a'u rhieni/gofalwyr a'u dealltwriaeth o bolisiau ymddygiad ysgolion. Rwy'n pryderu bod cyfradd mor uchel o waharddiadau cyfnod penodol am 'herio'r rheolau'. Mae tystiolaeth a gynhwyswyd yn yr astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar waharddiadau anghyfreithlon o'r ysgol (2011) yn destun pryder arbennig i mi.

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Nododd Adroddiad NBAR (2008) faterion oedd yn ymwneud â chyfyngiadau mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol o ran cynnig addysg ddigonol i blant a phobl ifanc. Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar les mewn unedau cyfeirio disgyblion yn 2012 sy'n awgrymu bod cyfres o faterion o hyd y mae angen ymdrin â hwy mewn lleoliadau addysg amgen.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o arweiniad i ysgolion ar fanteision mabwysiadu dulliau ysgol gyfan ar sail tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, gan gefnogi eu hymgyssylltiad a'u cyrhaeddiad addysgol.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad i leoliadau addysg ynghylch mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol, wedi'u hachredu, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliaeth.

Rwy'n bwriadu gwneud darn penodol o waith yn ystod y flwyddyn nesaf a fydd yn edrych yn fanwl ar les disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion yng ngoleuni'r pryderon a godwyd trwy adroddiad Estyn yn 2012.

Education complaints

Looking back

In my last annual report I set out my concerns about delays in the publication of complaints guidance for school governing bodies in Wales. This guidance has now been issued and acknowledges the serious short fallings that have existed in relation to compliance with complaints procedures. The Guidance appears to offer governing bodies in Wales clear direction on the exercise of their duties in relation to handling complaints. Work is now needed to ensure that governors and head teachers receive support in understanding the requirements of the new guidance.

I remain concerned that although the complaints guidance advises governing bodies to agree to an independent investigation where this is advised by the local authority, there is no right of recourse to an independent investigation body for pupils and parents making a complaint against an education provider.

In Wales, a new all Wales model complaints procedure has been introduced. Welsh Government has set out the benefits of this approach in terms of achieving consistency for handling complaints across public services, for ensuring that they are resolved more quickly and at the appropriate level, and ensuring that their resolution leads to improvements in the delivery of public services. The model scheme has a three stage process with Stage 3 involving independent external consideration by the Public Services Ombudsman for Wales. Health and Social Services were not included in the proposals as both sectors have statutory complaint schemes. However, Welsh Government consulted last year on proposed changes to the Social Services complaints procedures to bring them in line with the model complaints scheme for public services in Wales. I have welcomed the proposals to provide a simplified process supporting a common procedure across public services in relation to social services complaints while raising some concerns about the need to better support children's and young people's understanding of their right to complain and their rights in the complaints process. I can see no good reason why education provision should not be subject to the model complaints scheme for public services in Wales.

There is still evidence that children, young people and parents can find it difficult to understand their right to complain or what represents grounds for making a complaint. The Welsh Government guidance includes model complaints information for pupils, it is essential that this is shared with pupils. I also believe that this information could be improved upon.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to closely monitor the implementation of new guidance on school complaints.

I am calling on Welsh Government to take measures to bring Education provision in line with the model complaints scheme for public services in Wales.

Attendance and Behaviour

Earlier this year I provided evidence to the National Assembly for Wales' Children and Young People Committee's Inquiry into Attendance and Behaviour. This inquiry considered the issues raised through the National Behaviour and Attendance Review (NBAR) report (2008). The evidence gathered to inform my submission to the Committee raised a number of concerns for me.

Behaviour management

Evidence examined in relation to the Committee's inquiry suggests that parents still lack confidence in teachers' ability to apply positive behaviour management techniques. Welsh Government published a Behaviour and Attendance Action Plan in 2013 and has also launched the Learning Wales website to provide information, guidance and case studies in relation to improvement areas, including behaviour and attendance. However it is disappointing that Welsh Government's recently launched virtual learning 'Hwb' that provides classroom based resources, does not currently cover positive behaviour management and attendance issues. Estyn's inspection of arrangements in pupil referral units (2012) found that units that had adopted behaviour management strategies, restrictive physical intervention and restraint methods accredited by the British Institute for Learning Disabilities were most effective. This was linked to the units having staff that were well trained and confident in using techniques to defuse potentially challenging situations.

School exclusions

I welcome the fact that there has been a continued decrease in permanent exclusions from schools in Wales over the past five years. However in 2010/11 there were still 158 permanent exclusions from education settings in Wales. The most common reason given for fixed-term exclusions in the period 2010/11 was 'defiance of rules'. Welsh Government's guidance on exclusion from schools and pupil referral units was released in 2012 and is clear that the decision to exclude a learner should only be taken where there has been a serious breach of school behaviour policy or where the behaviour of a pupil could seriously harm the ability of others to learn. I am not clear what processes are in place to support pupils and their parents/carers awareness and understanding of schools behaviour policies. I am concerned that there is such a high rate of fixed term exclusions for 'defiance of rules'. Evidence included in Welsh Government's commissioned study of illegal school exclusions (2011) is of particular concern to me.

Education Otherwise than at School

The NBAR Report (2008) identified issues related to limitations in Education Otherwise than at School in terms of provision of an adequate education offer to children and young people. Estyn published a report on wellbeing in pupil referral units in 2012 that suggests there are still a series of issues to be addressed in alternative education settings.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to provide further direction to schools on the benefits of adopting evidenced whole-school approaches that focus on pupil well-being in support of educational engagement and attainment.

I am calling on Welsh Government to provide direction to education settings on the adoption of effective and accredited behaviour management strategies, restrictive physical intervention, and restraint methods.

I intend to undertake a distinct piece of work over the coming year that will examine in detail the well-being of pupils in pupil referral units in light of the concerns raised through Estyn's 2012 report.

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) 2012

Daeth Rheoliadau newydd y Tribiwnlys i rym ym mis Mawrth 2012. Mae'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau ac yn diwygio'r rheoliadau presennol oedd yn berthnasol i SENTW. Ddeuddeng mis yn ddiweddarach, cyhoeddodd SENTW eu hadroddiad blynyddol am y cyfnod 2011-12. Rwy'n nodi eu bod wedi mynegi pryderon am nifer uchel (33%) yr apeliadau lle bu i'r Awdurdod Lleol gydsynio yn ystod y cyfnod adrodd, ac ymrwymiad Gweinidogion i weithredu ynghylch y mater hwn.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod SENTW wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth i blant a rhieni ar y rheoliadau newydd. Mae hefyd DVD a gwefan i helpu gyda deall y canllawiau a'u rhoi ar waith.

Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer hawl plant a phobl ifanc i wneud eu hapel anghenion addysgol arbennig eu hunain, i hawlio camwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg. Mae Mesur Peilot Plant (Addysg (Cymru)) 2009 wedi bod ar waith mewn dwy ardal awdurdod lleol. Rwy'n croesawu'r datblygiad pwysig hwn ac yn gobeithio y bydd y peilot yn arwain at estyn y darpariaethau hyn ledled Cymru heb oedi diangen.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y rheoliadau hyn yn fanwl.

Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Rwyf wedi trafod gyda'r Dirprwy Weinidog a swyddogion ar ôl cyhoeddi Lleisiau Coll, ond rwy'n teimlo'n rhwystredig ynghylch y diffyg cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a amlinellais yn yr adroddiad. Fe wnes i groesawu Cynhadledd Llywodraeth Cymru ar Eiriolaeth ym mis Chwefror 2013, a sefydlu'r Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth. Roeddwn i'n glir ynghylch yr angen am arweinyddiaeth ar bob lefel i sicrhau cynnydd amserol.

Edrych ymlaen

Rwy'n bwriadu parhau i ddal Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyfrif am y ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol, a byddaf yn parhau i gynnwll cyfarfodydd o randdeiliaid allweddol i sicrhau y cyflawnir newid i blant a phobl ifanc.

Byddaf yn gwneud darn arall o waith ddwy flynedd wedi Lleisiau Coll, ac yn cynnal adolygiad ehangach o'r cynnydd, gan ganolbwyntio ar yr hysbysu a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan gyswll â'r hysbysu hynny â'r argymhellion a bennais ar eu cyfer yn 'Lleisiau Coll'.

Cyfranogiad

Edrych yn ôl

Pan gyhoeddais fy adroddiad diwethaf, roeddwn i'n dal i aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar strategaethau cyfranogiad lleol, sydd bellach wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf Atodiad i'r Canllawiau Cydamcanu-Cydymdrechu ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau. Cynghorwyd awdurdodau lleol fod modd cyflawni'r dyletswyddau cyfranogiad o dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010 trwy strategaeth ymgysylltu'r cynllun sengl integredig. Rwy'n croesawu'r ffaith bod cyfeiriad at CCUHP, y Mesur Hawliau a'r 7 nod craidd yn yr Atodiad.

Bydd fy swyddfa'n asesu cynnwys Cynlluniau Sengl Integredig awdurdodau lleol yng nghyswllt cyflawni'r ddyletswydd gyfranogiad a gynhwyswyd yn y Mesur ac yn y canllawiau. Byddaf hefyd yn casglu gwybodaeth gan Swyddogion Cyfranogiad a Gweithwyr Fforymau Ieuenctid ledled Cymru i asesu effaith newidiadau mewn strwythurau a pholisi cynllunio ynghylch hyrwyddo Erthygl 12 o CCUHP yng Nghymru.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n fanwl gyflawniad y dyletswyddau cyfranogiad o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gan awdurdodau lleol trwy Gynlluniau Sengl Integredig ac effaith hynny ar strwythurau cyfranogiad lleol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Gwaith ieuencid

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf roeddwn yn eglur yn nodi pa mor bwysig, yn fy marn i, yw cyfraniad posib gwaith ieuencid i fywydau pobl ifanc. Fe fues i hefyd yn galw am ymdrin â'r oedi cyn diweddar Strategaeth Genedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2007. Rwy'n siomedig felly nad oes strategaeth wedi'i diweddarar wedi'i chyhoeddi eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid newydd a'i roi ar waith yn ddiweddarach eleni. Fodd bynnag, cyhoeddir hwn er mwyn hwyluso'r pontio o Gynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid presennol 2011-2015 i'r Fframwaith newydd a fydd yn canolbwyntio ar chwe phrif gonglfaen sydd fel petaent yn ymwneud yn benodol â mater pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Er bod disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar strategaeth gwasanaeth ieuencid genedlaethol newydd yn fuan, rwy'n pryderu bod hynny'n arwydd o gyfyngu ffocws yng nghyswllt y gwasanaeth ieuencid yng Nghymru. Mae gweithredu i fynd i'r afael â lefelau y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn bwysig, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau cynyddol o ddiweithdra ieuencid yng Nghymru. Fodd bynnag, rwy'n pryderu na ddylai'r ffocws hwnnw ddigwydd ar draul manteision ehangach gwasanaeth ieuencid seiliedig ar hawliau sy'n cynnal lles pobl ifanc mewn modd cyfannol.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r dull seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwasanaethau ieuencid, yn unol â CCUHP, fel y cyflwynir yn Ymestyn Hawliau, yn cael ei gollu yn y newid i ffocws strategol ar ganlyniadau cysylltiedig â'r agenda NEET gulach.

>>>



Aim 5: Treated with respect and have their race and cultural identity recognised

Advocacy – Missing Voices

Looking Back

From their responses to Missing Voices, my review of independent professional advocacy services for looked after children, care leavers, and children in need in Wales it was evident that there was a lot of goodwill from government, local authorities and advocacy providers to get things right. However I have been disappointed at the pace of change. Progress has been too slow and the implication is that children and young people continue to miss out on the benefits that advocacy support can provide.

I have had discussions with the Deputy Minister and officials following the publication of Missing Voices, but have been frustrated at the lack of progress in implementing the recommendations I outlined in the report. I welcomed the Welsh Government Conference on Advocacy in February 2013 and the establishment of the Ministerial Expert Group on Advocacy. I was clear of the need for leadership at all levels to ensure timely progress.

Looking Forward

I intend to continue to hold Welsh Government and local authorities to account for the provision of independent professional advocacy and will continue to convene meetings of key stakeholders to ensure that change for children and young people is achieved.

I will be undertaking a further piece of work on the second anniversary of Missing Voices conducting a wider ranging review of progress with a focus on Welsh Government and Local Authorities delivery against the recommendations I set for them in 'Missing Voices'

Participation

Looking back

When I published my last report I was still waiting for Welsh Government guidance on local participation strategies to be issued and this has now been published as an Annex to the Shared Purpose-Shared Delivery Guidance on Integrating Partnerships and Plans. Local authorities have been advised that the participation duties under the Children and Families Measures 2010 can be discharged via the single integrated plan engagement strategy. I welcome the fact that reference is made to the UNCRC, the Rights Measure and the 7 core aims within the Annex.

My office will be assessing the contents of local authority Single Integrated Plans in relation to the discharge of the participation duty contained in the Measure and guidance. I will also be gathering information from Participation Officers and Youth Forum Workers across Wales to assess the impact of changes in planning structures and policy on the promotion of Article 12 of the UNCRC in Wales.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to closely monitor the discharge of the participation duties under the Children and Families Measures (Wales) 2010 by local authorities through Single Integrated Plans and the impact of this on local participation structures for children and young people in Wales.

Youth work

Looking back

In my last annual report I was clear in setting out the importance I place on the contribution that youth work can make to the lives of young people. I also called for delays in the refresh of the National Youth Service Strategy 2007 to be addressed. I am therefore disappointed that an updated strategy has yet to be published. Welsh Government has set out their intention to publish a new Youth Engagement and Progression Framework and implementation plan later this year. However this will be published to facilitate transition from the current Youth Engagement and Employment Action Plan 2011-2015 to the new Framework which will focus on six key building blocks that appear to be directed specifically at the issue of young people not in education, employment or training.

Whilst Welsh Government is expected to consult on a new national youth service strategy shortly, I am concerned that this signals a narrowing of focus for the youth service in Wales. Action to tackle levels of young people not in education, employment and training is important, especially in the context of rising levels of youth unemployment in Wales. However I am concerned that this focus should not happen at the expense of the wider benefits of a rights based youth service offer which holistically supports the well-being of young people.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to ensure that the rights based approach to youth services in line with the UNCRC as presented in Extending Entitlement is not lost in the change to a strategic focus on outcomes related to the narrower NEETs agenda.

>>>

Plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ac asesiadau oedran

Edrych yn ôl

Y llynedd fe alwais ar Lywodraeth Cymru i fonitro cynnydd ar weithrediad y Canllawiau Ymarfer newydd ar asesiadau oedran, a gynhwyswyd yng nghanllawiau Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar ddiogelu a hybu lles plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid. Ers hynny, mae UKBA wedi cynnull Gweithgor yng Nghymru sydd wedi cynhyrchu papur opsiynau ar gyflwyno Asesiadau Oedran yng Nghymru yn y dyfodol. Cynigiwyd pum opsiwn i'r gweithgor. Rwyf innau wedi argymhell model amgen – Panel Amlasiantaeth Annibynnol, fel y cynigiwyd yn yr ymateb a gyflwynwyd ar y cyd gan holl Gomisiynwyr Plant y DU i ymchwiliad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) i hawliau dynol plant a phobl ifanc mudol ar eu pen eu hunain yn y DU, gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n ceisio lloches neu sydd wedi dioddef cael eu masnachu.

Ym mis Chwefror 2013 cyflwynodd Comisiynwyr y DU yr achos dros weithdrefn ffurfiol ar gyfer penderfynu ar les pennaf plant ar eu pen eu hunain a rhai a wahanwyd, a bod y trefniadau cyfredol yn annigonol. Ynghyd â Chomisiynwyr Plant eraill y DU, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad sydd i ddod gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR) a UNICEF, a fydd yn darparu canllawiau manwl ar gyfer penderfynu ar les pennaf plant sydd wedi'u gwahanu ac sydd ar eu pen eu hunain mewn gwledydd diwydiannol (Cyd-destun Ewropeaidd). Ein dealltwriaeth ni yw y bydd y canllawiau'n ceisio cynorthwyo Gwladwriaethau i sefydlu proses lles pennaf a fydd yn cwmpasu asesiadau lles pennaf, cynllunio llwybr a'r penderfyniad lles pennaf a fydd yn cysylltu â'r trefniadau presennol ar gyfer lloches, mudo ac amddiffyn plant. Y prosesau allweddol y bydd y canllawiau yn eu hystyried yn fanwl yw'r asesiad lles pennaf (BIA) a'r penderfyniad lles pennaf (BID). Bydd yr asesiad yn hysbysu materion megis meddiad i gyngor cyfreithiol, triniaeth feddygol a gofal iechyd, llefy priodol, gwaith a chefnogaeth, asesu oedran, cychwyn olrhain teulu, darpariaeth addysg a materion eraill y mae angen ymdrin â hwy ar unwaith wrth ddewisgwyl am y BID. Rhagwelir y bydd y penderfyniad yn weithdrefn ffurfiol i benhau anghenion amddiffyn y plentyn. Bydd y BIA a'r BID yn cynnwys mesurau diogelu gweithdrefnol megis darparu gwarcheidwad, cymorth cyfreithiol, gwasanaethau dehongli a chyfweliadau priodol i blant.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ym mha ffyrdd y gellir defnyddio canllawiau UNHCR a UNICEF ar benderfyniadau lles pennaf ar gyfer plant ar eu pen eu hunain a rhai a wahanwyd mewn gwledydd diwydiannol a'u haddasu i gyd-destun Cymru, yn unol â dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP.

Children and young people seeking asylum and age assessment

Looking back

Last year I called on Welsh Government to monitor progress on the implementation of the new Practice Guidance on age assessments as contained in the All Wales Child Protection Procedures Group guidance on safeguarding and promoting the welfare of unaccompanied asylum seeking/refugee children. Since then UKBA have convened a Working Group in Wales that has produced an options paper on the future delivery of Age Assessment delivery in Wales. Five options were put forward to the working group. I have advocated an alternative model - an Independent Multi-agency Panel, as proposed in the response submitted jointly by all UK Children's Commissioners to the Joint Committee on Human Rights (JCHR) inquiry into the human rights of unaccompanied migrant children and young people in the UK, with a particular focus on those who are seeking asylum or have been the victims of trafficking.

In February 2013 the UK Commissioners presented the case for a formal procedure for determining the best interests of separated and unaccompanied children and that the current arrangements are inadequate. Along with the other UK Children's Commissioners I welcome the forthcoming publication from the United Nations High Commissioner for Refugees (UNHCR) and UNICEF which will provide detailed guidance on best interests determinations for separated and unaccompanied children in industrialised countries (European Context). Our understanding is that the guidance will aim to assist States in establishing a best interests process encompassing best interests assessments, pathway planning and the best interests determination that will link to existing asylum, migration and child protection arrangements. The key processes that the guidance will consider in detail are the best interests assessment (BIA) and the best interests determination (BID). The BIA will inform such matters as access to legal advice, medical treatment and healthcare, appropriate accommodation, care and support, age assessment, commencement of family tracing, education provision and other matters that need addressing immediately pending BID. The BID is envisaged as a formal procedure to determine the child's protection needs. Both the BIA and the BID will contain procedural safeguards such as the provision of a guardian, legal aid, child appropriate interpreting services and interviews.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to consider the ways in which the UNHCR and UNICEF guidance on best interests determinations for separated and unaccompanied children in industrialised countries can be used and adapted to the Welsh context in line with the duty of due regard to the UNCRC on Welsh Ministers.

Nod 6: Meddu ar gartref a chymuned diogel

Cyfiawnder ieuencid

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf fe alwais ar Lywodraeth Cymru i gadw egwyddor plant yn gyntaf, troseddwy'r yn ail, a fframwaith CCUHP cadarn yn eu deddfwriaeth arfaethedig ar gyfiawnder ieuencid yng Nghymru. Daeth y cynnod ymgynghori ar gyfer Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru 'Cynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuencid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni' i ben ym mis Rhagfyr 2012. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd rwyf wedi croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i egwyddor trin y rhai sy'n ymddwyn yn droseddol, neu sydd mewn perygl o droseddu, fel plant a phobl ifanc yn gyntaf, yn unol ag ysbryd CCUHP. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi galw am arddangos yn gliriach asesiad y polisi yn erbyn y ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP ar hyd y Papur Gwyrdd, yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Rwyf hefyd wedi gwneud yn eglur yn fy ymateb i'r cynigion y dylai pob asiantaeth, yn fy marn i, gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a thai, weithio tuag at atal troseddu ieuencid fel canlyniad gwasanaeth. Lle daw plentyn neu berson ifanc i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid, dylid gweld hynny fel methiant yn y system, yn hytrach na diffyg yn y plentyn neu'r person ifanc. Rwyf wedi croesawu'r datganiad yn y Papur Gwyrdd yng nghyswllt yr angen i'r heddlu, tîmau troseddu ieuencid, a gwasanaethau datganoledig ehangach gydweithio i asesu a chanfod risgiau a dargyfeirio plant a phobl ifanc i wasanaethau prif ffrwd i'w hatal rhag troseddu, yn unol ag Erthygl 40 (hawliau plant sy'n wynebu honiad, cyhuddiad neu achos cydnabyddedig o fod wedi torri'r gyfraith) o CCUHP. Rwyf wedi nodi fy nghefnogaeth i'r cynnig i gryfhau dyletswyddau presennol ac atebolrwydd awdurdodau lleol a'u partneriaid o ran y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid trwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Papur Gwyn Cartrefi i Gymru, Strategaeth Llaw yn Llaw at Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Hoffwn wedi y Diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig wedi'u cynnwys yn y rhestr hon o bolisiau perthnasol.

Dylai egwyddor 'plant yn gyntaf, troseddwy'r yn ail' gael ei deall gan bob deiliad dyletswydd sy'n gweithio ar draws asiantaethau, a dylid gweld cefnogaeth y Tîm Troseddau Ieuencid fel cymorth ychwanegol yng nghyswllt ymddygiad troseddol, yn hytrach nag fel dewis amgen yn lle'r gwasanaethau cymorth prif ffrwd. Dylai'r canllawiau a roddir o dan y fframweithiau deddfwriaethol perthnasol fod yn gwbl benodol yn hyn o beth, a dylai atgoffa deiliad dyletswydd bod angen iddynt roi sylw i Erthygl 40 o CCUHP wrth weithredu polisiau Gweinidogion.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud na ddylid carcharu plant 'ond pan fo popeth arall wedi methu ac am y cynnod priodol byrraf o amser'. Yn 2008 cyhoeddodd Comisiynyw'r Plant y DU eu hadroddiad i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Buom yn glir yn nodi ein pryder nad yw cynnodau yn y ddalfa yn cael eu defnyddio pan fo popeth arall wedi methu, yn enwedig yng Nghymru a Lloegr.

Rwyf felly wedi croesawu bwriadu'r dull a gynigiwyd trwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol Dedfryd a Chosbi Troseddwy'r Llywodraeth y DU, wrth geisio lleihau'r achosion diangen o gadw plant yn gaeth. Rwyf hefyd wedi croesawu estyn statws 'plentyn sy'n derbyn gofal' i bob plentyn sy'n cael eu cadw ar remand mewn llety caeth i bobl ifanc a'r ffaith y bydd hyn yn newid y sefyllfa bresennol sy'n golygu bod plentyn sydd â statws derbyn gofal o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn peidio â derbyn gofal ar ôl mynd i'r ddalfa, sefyllfa sy'n amlwg heb fod yn adlewyrchu lles pennaf y plentyn.

Rwy'n falch bod Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru'n cynnwys y cynnig bod plentyn neu berson ifanc a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa yn cael ei drin fel un sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod dynodedig. Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru a gasglwyd fel rhan o'r datblygiad ar gyfer y Papur Gwyrdd yn awgrymu bod y bobl ifanc hyn sy'n mynd i'r ddalfa er gwaethaf cyfraddau is yn y ddalfa yn fwy tebygol o fod ag anghenion ychwanegol cymhleth, sy'n cyfiawnhau cymhwyso statws derbyn gofal er mwyn diogelu eu lles.

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi nodi ei bwriadau ar gyfer symud ymlaen gyda'r cynigion a geir yn y Papur Gwyrdd. Fy safbwynt i yw y dylai'r cynigion hyn gael eu gwneud yn statud, yn wyneb realiti'r cystadlu am adnoddau cyfyngedig, tystiolaeth am natur agored i niwed plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i'r system cyfiawnder ieuencid neu sydd eisoes ynndi, a thystiolaeth bod rhwystrau'n bodoli i wasanaethau prif ffrwd.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi sail statudol i'r cynigion a gynhwyswyd yn y Papur Gwyrdd.

Tai a digartrefedd

Edrych yn ôl

Y llynedd fe wnes i godi pryderon am y niferoedd cynyddol o aelwydydd oedd yn cael eu derbyn fel rhai digartref ac effaith newidiadau i reolau budd-dal tai fel rhan o ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU o ran cynnydd pellach yn y ffigurau digartrefedd. Mae tystiolaeth a roddwyd i mi gan Shelter Cymru ac eraill yn awgrymu bod newidiadau i'r system fudd-daliadau, ynghyd â'r 'dreth ystafelloedd gwely' eisoes yn cael effaith sylweddol, niweidiol ar deuluoedd yng Nghymru. Rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweithio'n galed i ddileu effeithiau'r newidiadau hyn ar eu tenantiaid. Fodd bynnag, rwy'n pryderu'n arbennig am dystiolaeth bod staff tai awdurdodau lleol yn cynghori rhieni sengl sydd â phlant ifanc i dderbyn llelywr. Nid yw effaith lawn y newidiadau i fudd-dal yn amlwg eto, ac mae gen i bryderon difrifol ynghylch canlyniadau'r newidiadau hyn i lesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yr heriau hyn yw un o'r rhesymau pam rwyf wedi croesawu'r ymrwymiad a gafwyd yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell' i ddileu digartrefedd teuluoedd erbyn 2019. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau nad yw plant yng Nghymru heddiw ac yn ystod y 6 blynedd nesaf yn cael eu gadael mewn amgylchiadau tai niweidiol, a'u bod yn derbyn yr ymatebion angenrheidiol i sicrhau eu lles. Rwyf hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad tebyg i ddileu digartrefedd ieuencid erbyn 2019. Rydym yn gwybod mai'r bobl ifanc fwyaf tebygol o beidio â derbyn eu hawl o ran tai yw'r rhai sydd ymhliith y mwyaf agored i niwed, ac rwy'n pryderu bod gormod o bobl ifanc yn dal i ganfod bod eu hanghenion cymhleth yn golygu bod eu gyrfaeodd tai cynnar yn cynnwys cyfres o leoliadau sydd wedi methu ac achosion o droi allan, i'r graddau y gellir eu labelu fel rhai 'anodd eu cartrefu'.

Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol cyson ar dai, a byddwn yn disgwyl gweld mesurau sicrhau ansawdd clir yn cael eu sefydlu. Fe fues i'n siarad â phobl ifanc yn gynharach eleni am y gwasanaeth cyngor a phorth tai 'siop dan yr unto' yn eu hardal. Fe fuon nhw'n disgrifio i mi staff amharod i helpu oedd yn cael trafferth ymateb i'r galw yng ngoleuni adnoddau tai cyfyngedig, ac nad oedd pobl ifanc yn credu bod ganddyn nhw ddi-ddordeb yn eu hanghenion nac mewn sicrhau unrhyw sefydlogrwydd tai iddyn nhw. Rwy'n falch bod materion fel y rhain wedi cael eu cydnabod yn y Papur Gwyn.

>>>

Aim 6: Have a safe home and community

Youth justice

Looking back

In my last annual report I called on Welsh Government to retain the principle of children first, offender second and a strong UNCRC framework in their proposed legislation on youth justice in Wales. The consultation period in relation to the Welsh Government Green Paper 'Proposals to improve services in Wales to better meet the needs of children and young people who are at risk of entering, or are already in, the Youth Justice System' ended in December 2012. In responding to the consultation on the Green Paper I have welcomed the continued commitment by Welsh Government to the principle of treating those with offending behaviour, or at risk of offending, as children and young people first in line with the spirit of the UNCRC. However I have also called for a clearer demonstration of the assessment of the policy against the duty to have due regard to the UNCRC throughout the Green Paper in line with the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

I have also made it clear in my response to the proposals that it is my view that all agencies including social care, health, education and housing should work towards preventing youth offending as a service outcome. Where a child or young person comes into contact with the youth justice system this should be viewed as a failure of the system and not as the result of a deficit in the child or young person. I have welcomed the statement within the Green Paper in relation to the need for the police, youth offending teams and wider devolved services to work together to assess and identify risks and divert children and young people to mainstream services to prevent them from offending in line with Article 40 (rights of children alleged, accused of or recognised as having infringed the law) of the UNCRC. I have set out my support for the proposal to strengthen existing duties and accountability on local authorities and their partners for those children and young people who come into contact with the youth justice system through the Social Services and Well-being (Wales) Bill, the Homes for Wales White Paper, Together for Mental Health Strategy and the Mental Health (Wales) Measure. I would like to see the proposed Reform of the Legislative Framework for Special Educational Needs included in this list of relevant policies.

The principle of 'children first, offenders second' should be clearly understood by all duty bearers working across agencies and the support of the Youth Offending Team should be viewed as an additional support in relation to offending behaviour and not as an alternative to mainstream support services. Guidance issued under the relevant legislative frameworks should be explicit in this regard and should remind duty bearers of their need to have regard to Article 40 of the UNCRC in implementing the policies of Ministers.

The UN Convention on the Rights of the Child says that imprisonment of children should be used 'only as a last resort and for the shortest appropriate period of time'. In 2008 the UK Children's Commissioners published their report to the UN Committee on the Rights of the Child. We were clear in stating our concern that custody is not being used as a last resort, particularly in Wales and England.

I have therefore welcomed the intentions of the approach offered through the UK Government Legal Aid Sentencing and Punishment of Offenders Act in seeking to reduce the unnecessary secure remand of children. I have also welcomed the extension of the status of 'looked after child' to all children remanded to youth detention accommodation and the fact that this will change the current situation through which a child with looked after status under section 20 of the Children Act 1989 ceases to be looked after upon entering custody, a position that clearly does not reflect the best interests of the child.

I am pleased that the Welsh Government Green Paper includes the proposal to taking forward the proposals contained in the Green Paper. My position is that in view of the reality of competing demands on limited resources, evidence on the vulnerability of children and young people at risk of entering and already in the youth justice system and evidence that there are barriers to mainstream services in place, these proposals should be put into statute.

At this time Welsh Government has yet to set out its intentions in relation to taking forward the proposals contained in the Green Paper. My position is that in view of the reality of competing demands on limited resources, evidence on the vulnerability of children and young people at risk of entering and already in the youth justice system and evidence that there are barriers to mainstream services in place, these proposals should be put into statute.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to give the proposals contained in the Green Paper a statutory basis.

Housing and homelessness

Looking back

Last year I raised concerns about increasing numbers of households being accepted as homeless and the forthcoming impact of changes to housing benefit rules under the UK Government welfare reforms in terms of further increases to homelessness figures. Evidence provided to me by Shelter Cymru and others suggest that changes to the benefit system combined with the 'bedroom tax' are already having a significant and detrimental impact on families in Wales. I know that local authorities across Wales are working hard to negate the impacts of these changes for their tenants. However I am particularly concerned by evidence that local authority housing staff are advising single parents with young children to take in a lodger. The full impact of the benefit changes is yet to come and I have serious concerns about the outcomes of these changes on the well-being of children and young people in Wales.

These challenges are one of the reasons that I have welcomed the commitment contained in the Welsh Government Consultation 'Homes for Wales: A White Paper for Better Lives and Communities' to end family homelessness by 2019. However we must ensure that children in Wales today and over the next 6 years are not left in damaging housing circumstances and are provided with the responses needed to secure their wellbeing. I have also called for a similar commitment to be made by Welsh Government to ending youth homelessness by 2019. We know that the young people most likely to have their right to housing unmet are among the most vulnerable and I am concerned that too many young people still find that their complex needs mean that their early housing careers involve a succession of failed placements and evictions to the point that they may be labelled as too 'hard to house'.

The White Paper sets out proposals to provide a consistent housing advisory service and I would expect to see clear quality assurance measures put in place. I spoke to young people earlier this year about the 'one stop shop' housing advice and gateway service in their area. They described to me unhelpful staff struggling to meet demand in light of limited housing resources who young people did not believe were interested in their needs or in securing any housing stability for them. I am pleased that issues similar to these have been acknowledged in the White Paper.

>>>

Rwyf wedi croesawu bwriadau ehangach y Papur Gwyn yng nghyswllt cyflwyno deddfwriaeth i wella'r system tai yng Nghymru. Rwy'n arbennig o falch bod cyfeiriad uniongyrchol yn y Papur Gwyn at y ffordd y mae cynigion yn cyfrannu at weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn arbennig Erthyglau 3 (lles pennaf), 6 (yr hawl i fywyd), 18 (cymorth i rieni) a 27 (safon byw ddigonol).

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddileu digartrefedd ieuencid yn ogystal â digartrefedd teuluoedd erbyn 2019, a hynny trwy newidiadau a gyflwynwyd trwy'r Bil Tai sydd i ddod.

Adfywio cymunedau

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd' ar gyfer ymgynghori ym mis Hydref 2012, o ganlyniad i adolygiad polisi o agweddau at adfywio a gychwynnwyd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threfnadaeth. Bwriad yr adolygiad a'r fframwaith dilynol yw chwilio am ffyrdd newydd o ddarparu gwell canlyniadau trwy weithio'n gydlynus a hysbysu gweithrediad egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru bod datblygu cynaliadwy yn allweddol i drechu tlodi a hybu cyfle cyfartal.

Fel Comisiynydd Plant Cymru rwy'n aml yn cwrdd â phlant a phobl ifanc sy'n siarad â mi am fod eisiau rhyddid i chwarae a 'threulio amser' mewn manau cymunedol, ac am y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth gysgu manau lle gallan nhw deimlo'n ddiogel, a heb eu targedu gan oedolion i'w symud ymlaen. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn siarad am ddiplomi amgylcheddol, ac yn aml am sut maen nhw'n cyfrannu at adfywio manau cyhoeddus yn eu cymunedau. Mae'r gymuned ryngwladol yn cynnig rhai enghreifftiau cadarn o'r hyn y gellir ei gyflawni pan welir plant a phobl ifanc fel elfen hanfodol o benderfyniadau cynllunio ac adfywio. Yn fy ymateb i'r ymgynghoriad, fe nodais fy mhryderon nad oedd dyletswydd y Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol yn y fframwaith polisi. Er bod materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc fel aelodau o'r gymuned yn cael eu cynnwys, fel y mae rhai mesurau canlyniadau perthnasol, fe alwais am ystyriaeth gadarnach i oblygiadau'r fframwaith polisi fel offeryn i hybu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Rwy'n siomedig felly nad yw draft terfynol y Fframwaith hwn, a lanswyd ym mis Mawrth 2013, yn ymdrin â'r pryderon a godais yn fy ymateb i'r drafft ymgynghori.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r mesurau sydd ar waith i sicrhau bod gweithrediad y fframwaith adfywio yn ymdrin yn fwy uniongyrchol ag anghenion plant a phobl ifanc, ac yn hyrwyddo eu hawliau.

Nod 7: Heb fod o dan anfantais yn sgîl tlodi

Tlodi Plant

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf fe alwais ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, a hynny ar frys, a fyddai'n gosod y camau gweithredu ar dodi plant oddi mewn i fframwaith seiliedig ar hawliau plant. Fodd bynnag, pan gyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2012, roedd yn destun pryder arbennig i mi fod y fframwaith clir, seiliedig ar hawliau, yn unol â dyletswydd Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP, i bob golwg wedi cael ei gollu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bwriad i gyflwyno fersiwn wedi'i hadnewyddu o'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2013.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Strategaeth Tlodi Plant i Gymru: Dangosyddion Gwaelodlin' ym mis Mawrth eleni. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso Strategaeth Tlodi Plant Cymru, gan ddarparu data gwaelodlin ar gyfer 2005 a chymhariaeth â data'r flwyddyn ddiweddaraf ar draws 23 sy'n gysylltiedig â thlodi incwm, addysg, tai a iechyd. Mae'n destun pryder mawr i mi na cheir tystiolaeth o gynnydd ond yng nghyswllt 6 o'r 23 ddangosydd sy'n derbyn sylw yn yr adroddiad. Rwy'n ymwybodol bod y sefyllfa economaidd bresennol yn un heriol, ac y rhagwelir y bydd y Diwygiadau Lles sy'n cael eu gyrru ymlaen gan Lywodraeth y DU yn cael effaith ar deuluoedd â phlant yn arbennig. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwnnw mae'n destun pryder arbennig bod y cynnydd o ran ymdrin ag effaith tlodi plant gan Lywodraeth Cymru yn ymddangos mor gyfyngedig. Mae tystiolaeth glir yn awr, yn fwy nag erioed, bod rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu eu dull o weithredu ac ystyried camau cadarn, wedi'u cyfeirio, i ymdrin ag anghenion a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi.

Canlyniad tlodi teuluoedd yw tlodi plant. Ond mae dull tlodi plant o fynd i'r afael â hyn yn sylfaenol wahanol i dull tlodi teuluol. Mae dull tlodi plant yn gwneud y plentyn yn ganolog i bob mesur polisi ac yn cydnabod y plentyn fel un sydd â hawliau sy'n estyn y tu hwnt i'r teulu. Unwaith mae wedi'i roi yng nghyd-destun hawliau plant, ar sail CCUHP, daw unigrywiaeth y dull o ymdrin â thlodi plant i'r amlwg, a hynny ddylai ysgogi pob menter polisi i wrthweithio tlodi plant.

Edrych ymlaen

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys mesurau cadarn yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi diweddaraf, er mwyn trechu tlodi plant yn benodol trwy ddull seiliedig ar hawliau, yn unol â'r dyletswydd sydd ar y Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP.

I have welcomed the wider intentions of the White Paper in relation to the introduction of legislation to improve the housing system in Wales. I am particularly pleased that there is direct reference within the White Paper to the way in which proposals contribute to implementing the United Nations Convention for the Rights of The Child, notably Articles 3 (best interests), 6 (right to life), 18 (assistance to parents) and 27 (adequate standard of living).

Looking forward

I am calling on Welsh Government to commit to ending youth homelessness in addition to family homelessness by 2019 through changes introduced through the forthcoming Housing Bill.

Regenerating communities

Welsh Government issued 'Vibrant & Viable Places: New Regeneration Framework' for consultation in October 2012 as a result of a policy review of approaches to regeneration instigated by the Minister for Housing, Regeneration & Heritage. The review and resulting framework is intended to seek new ways to deliver better outcomes through joined-up working and to inform implementation of the guiding principles of the Welsh Government that sustainable development is key to tackling poverty and promoting equality of opportunity.

As Children's Commissioner for Wales I frequently meet children and young people who talk to me about wanting the freedom to play and 'hang out' in community spaces and about the barriers they face in accessing spaces where they can feel safe and are not targeted by adults to be moved on. Children and young people also talk about environmental poverty and often about the ways in which they are contributing to the regeneration of public places in their communities. The international community offers some robust examples of what can be achieved when children and young people are seen as integral to decisions about planning and regeneration. In my response to the consultation I set out my concerns that the Minister's duty to have due regard to the UNCRC under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure was not adequately reflected in the policy framework. Although issues of importance to children and young people as community members are included, as are some relevant outcome measures I called for stronger consideration of the implications of the policy framework as a tool for promoting the rights of children and young people in Wales.

I am therefore disappointed that the final draft of this Framework as launched in March 2013 does not address the concerns I raised in the response I provided to the consultation draft.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to set out the measures in place to ensure that implementation of the regeneration framework more directly addresses the needs of children and young people and promotes their rights.

Aim 7: Not disadvantaged by poverty

Child Poverty

Looking back

In my last annual report I called on Welsh Government to publish as a matter of urgency a Tackling Poverty Action Plan that would situate actions on child poverty within a child rights based framework. However when the Tackling Poverty Action Plan was published in June 2012 it was of particular concern to me that there is an apparent loss of a clear rights based framework in line with the Ministers duty of due regard to the UNCRC. Welsh Government have signaled their intention to issue a refreshed Tackling Poverty Action Plan in June 2013.

Welsh Government published 'Child Poverty Strategy for Wales: Baseline indicators' in March of this year. This report provides an evaluation of Welsh Child Poverty Strategy providing baseline data for 2005 and a comparison with the most recent year's data across 23 related to income poverty, education, housing and health. It is of great concern to me that progress is only evidenced in relation to 6 of the 23 indicators considered in the report. I am aware that the current economic situation is a challenging one and that the Welfare Reforms being pushed forward by the UK Government are anticipated to impact in particular on families with children. However within this context it is particularly worrying that progress in addressing the impact of child poverty by Welsh Government appears to be so limited. There is clear evidence that now, more than ever, Welsh Government must review their approach and consider robust and directed action to address the needs and promote the rights of children and young people in poverty.

Child poverty is the result of family poverty. However a child poverty approach to tackling the issue is essentially different from a family poverty approach. A child poverty approach puts the child at the centre of all policy measures and acknowledges the child as a rights bearer with rights that extend beyond the family. Once framed in a child rights context, based on the UNCRC, the distinctiveness of a child poverty approach becomes clear and should drive all policy initiatives to combat child poverty.

Looking forward

I am calling on Welsh Government to include robust measures within the refreshed Tackling Poverty Action Plan to specifically tackle child poverty through a rights-based approach in line with the Minister's duty of due regard to the UNCRC.

Casgliad

Conclusion

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pwysigrwydd gwranddo ar leisiau plant a phobl ifanc, a hefyd wedi ein hatgoffa i gyd am y trychinebau all ddigwydd pa na chaiff pobl ifanc eu clywed. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae difrifoldeb yr achosion hanesyddol amlwg o gamdriniaeth yng Nghymru wedi ategu bod angen ystyried plant a phobl ifanc fel deiliaid hawliau a hefyd, yn fwy hanfodol, bod angen gwranddo a gweithredu ar sail eu pryderon.

Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc, ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i leisio'u pryderon.

Fel camau nesaf ar gyfer 2013/14, byddwn yn

- edrych yn fanylach ar lesiant dysgwyr er mwyn canolbwyntio ar farn dysgwyr, eu lles a'u hawl i gael addysg;
- ymchwilio i gydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac effaith hynny ar y cyfleoedd i blant anabl fwynhau eu hawliau i addysg heb gamwahaniaethu;
- ystyried yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl ac i ba raddau mae plant anabl a'u gofalwyr yn teimlo bod y rhain yn diwallu eu hanghenion.

The past year has highlighted the importance of listening to the voices of children and young people, whilst reminding us all collectively of what can go terribly wrong when young people are not heard. Over the past twelve months, the severity of the much publicised historical abuse cases in Wales has reiterated the need to consider children and young people as rights holders and, more crucially, the need to listen and act upon their concerns.

My team and I will continue to champion the rights of children and young people and we will do all we can to ensure that children are aware of their rights and feel empowered to voice their concerns.

Next steps for 2013/14, we will

- examine learner well-being in more depth to focus on the views of learners, their well-being and their right to education;
- investigate compliance with the Equality Act 2010 and the impact of this on the opportunities for disabled children to enjoy their rights to education without discrimination;
- consider the range of services provided for carers of disabled children and young people and the degree to which disabled children and their carers feel these meet their needs.

Cyfrifon Sylwadau'r Rheolwyr

Accounts Management Commentary

Tudalen 54

Mae Comisiynydd Plant yn rhywun sy'n codi llais dros blant a phobl ifanc a'u hawliau ac yn helpu i gryfhau a gwella'r systemau sy'n bodoli i'w hamddiffyn a'u galluogi i gyflawni eu potensial. Bernir bod creu sefydliadau hawliau dynol annibynnol o'r fath ar gyfer plant mewn llawer o wledydd ar draws y byd yn angenrheidiol am y rhesymau canlynol:

- weithiau mae hawliau plant yn cael eu hanwybyddu, neu eu hanghofio;
- does dim pŵer economaidd a gwleidyddol gan blant;
- weithiau dyw plant ddim yn cael beth mae arnyn nhw ei angen; ac
- weithiau mae plant mewn perygl.

A Children's Commissioner is someone who speaks up for children and young people and their rights and helps strengthen and improve the systems there to protect them and enable them to fulfil their potential. The establishment of such independent human rights institutions for children in many countries throughout the world is considered necessary because:

- sometimes children's rights are ignored, or forgotten about;
- children lack economic and political power;
- sometimes children don't get what they need; and
- sometimes children are at risk.

Ar 1 Mawrth 2008, cychwynnodd Keith Towler yn ei swydd fel Comisiynydd newydd, wedi’i benodi gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei gyfweld gan blant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae fîm o bobl yn gweithio gyda’r Comisiynydd Plant – yn Abertawe a Bae Colwyn – i’w helpu i wneud y canlynol:

- cefnogi plant a phobl ifanc i gasglu gwybodaeth am hawliau plant
- gwrandao ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy’n bwysig iddyn nhw
- cyngori plant, pobl ifanc a’r rhai sy’n gofalu amdanynt os byddant yn teimlo na allant droi at neb arall gyda’u problemau
- dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy’n dweud eu bod yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr dros blant Cymru.

Mae’r Comisiynydd yn gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed sy’n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Mae ganddo bŵer hefyd i weithredu ar ran pobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau.

O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru mae dyletswydd i wneud y canlynol:

- rhoi sylw i Gonfensiwn y CU ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) ym mhopeth mae ef a’i dîm yn ei wneud;
- gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae lle swyddfeydd a sut mae cysylltu ag ef a’i dîm;
- gannog plant i gysylltu ag ef a’r fîm;
- gofyn barn plant ar ei waith yn awr ac yn y dyfodol, a chaniatáu iddyn nhw ddylanwadu ar ei raglen waith; a
- gwneud yn siŵr ei fod e a’i staff yn mynd i gwrrd â phlant a phobl ifanc.

Nid yw’r gwaith wedi’i gyfyngu i faterion sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn gysylltiedig â phlant, er enghraifft iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynllunio, trafnidiaeth, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig hefyd yn rhan o gwmpas ei rôl.

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisiâu, polisiâu arfaethedig, a darparu gwasanaethau i blant;
- archwilio’n fanylach achos plentyn neu blant penodol os yw’n ymwneud â mater sy’n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru;
- gofyn bod asiantaethau neu bersonau sy’n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi eu tystiolaeth dan lw; a
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i eraill sy’n pryderu am eu hawliau a’u lles.

Mae hefyd bŵer pwysig ychwanegol i ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy’n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae Pwyllgor Archwilio’r Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa’r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae’n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa’r Comisiynydd ac aelodau nad ydynt yn rhan o’r Weithrediaeth. Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliwyd pedwar cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio. Aelodau’r Pwyllgor Archwilio yw:

- **Wyn Mears – Ymgynghorydd Busnes a Chyn Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig;**
- **Ian Summers – Ymgynghorydd Cyllid a Llywodraethu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyn Bartner yn Swyddfa Archwilio Cymru;**
- **Greta Thomas – Cyn Gyfarwyddwr yr NSPCC yng Nghymru; a**
- **Dr Iolo Doull - Pediatregydd Resbiradol Ymgynghorol yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd**

Uwch swyddogion

Bu’r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tim Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- **Keith Towler – Comisiynydd Plant Cymru;**
- **Eleri Thomas – Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd Plant;**
- **Tony Evans – Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol;**
- **Andy Wallsgrove – Pennaeth Gweithrediaeth;**
- **Sara Young – Swyddog Cyfathrebu; ac**
- **Amanda Evans – Swyddog Adnoddau Dynol.**

Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2012-13 derbyniodd y Comisiynydd £1.752 miliwn (2011-12: £1.749 miliwn) i ariannu ei weithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys £20,000 ychwanegol i dalu am gostau ychwanegol cysylltiedig â’r ymchwiliadau a wnaed i’r honiadau hanesyddol ynghylch cam-drin plant yng Ngogledd Cymru.

Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a’r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o’r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, Comisiynydd Plant Cymru, T Ystumllwynarth Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2013, ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau’r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae’r polisiâu cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y’u mabwysiadwyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.755 miliwn ar gyfer y cyfnod (2011-12: £1.637 miliwn). Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £365,000 (2011-12: £368,000).

Yn ystod 2012-13 newidiodd staff y Comisiynydd i 25.2 (cyfwerth amser llawn) o 22.6 (cyfwerth amser llawn) aelod o staff, sy’n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser. Y rheswm am y newid yn niferoedd y staff oedd bod y trefniadau recriwtio wedi cael eu rhewi yn ystod y cyfnod dan sylw.

